

Ein Dyfodol Digidol

Map Ffordd Digidol ar gyfer lechyd yng Ngogledd Cymru

2021 - 2024



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

1. RHAGAIR	3
2. CYFLWYNIAD	4
3. EIN GWELEDIGAETH, UCHELGEISIAU A’N GALLUOGWYR DIGIDOL - TROSOLWG	5
4. UCHELGAIS 1 – PROFIAD CLEIFION A GOFALWYR WEDI’U GALLUOGI	6
Profiadau Cleifion a Gofalwyr	6
Sut bydd y profiadau hyn yn teimlo’n wahanol i gleifion a gofalwyr	7
Cleifion a Gpofalwyr – Sut y gallwch gefnogi cyflawni’r strategaeth hon	8
5. UCHELGAIS 2 – STAFF SYDD WEDI CYSYLLTU	9
Profiadau’r Staff	9
Sut bydd y profiadau hyn yn teimlo’n wahanol i Staff	10
Staff – Sut y gallwch gefnogi cyflawni’r strategaeth hon	11
6. Y 6 GALLUOGWR	11
Galluogwr 1 – Sylfeini Digidol Cryfach	12
Galluogwr 2 – Gwybodaeth er Gwella	12
Galluogwr 3 – Trefniadaeth Ddigidol “Meddwl yn Ddigidol”	13
Galluogwr 4 – Partneriaethau Cryf	13
Galluogwr 5 – Cynhwysiant Digidol	14
Galluogwr 6 – Croesawu Arloesedd	15
7. CYD-DESTUN CENEDLAETHOL A LLEOL	16
Cyd-destun Cenedlaethol	16
Cyd-destun Lleol	18
8. EIN SEFYLLFA GYFREDOL	20
Trosolwg Cryno	20
Beth Wnaethom Ei Gyflawni Yn 2019/20	22
Ein Prif Heriau	23
Ein Risgiau	24
9. CYFLAWNI’R UCHELGEISIAU A’R GALLUOGWYR	24
Gwireddu Uchelgais 1 – Galluogi Cleifion a Gofalwyr	24
Rhaglen Trawsnewid Cleifion Allanol	25
Cynnwys, Canlyniadau A Phrofiad Cleifion	25
Prosiect Cofnod Iechyd Digidol (DHR)	26
Rhaglen Gwasanaethau Digidol Ar Gyfer Y Cyhoedd A Chleifion	26
Gwireddu Uchelgais 2 – Staff Wedi eu Cysylltu	27
Prosiect System Gweinyddu Cleifion Cymru (WelshPAS)	27
Rhaglen Trawsnewid Cofnodion Cleifion (PRTP)	28
Rhaglen Cydweithio, Cynhyrchedd a Gweithio’n Hyblyg	28

Rhaglenni a Phrosiectau Trawsnewidd Gwasanaethau	29
Cynllun Sgiliau Digidol	30
Cyflawni Galluogwr 1 – Sylfeini Digidol Cryfach	31
Mae Ein Seilwaith, Systemau, Dyfeisiau a Chefnogaeth TGCh a Ddarperir Yn Addas Ar Gyfer Heddiw a’r Dyfodol	31
Diogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth Gref	33
I Gael Y Gorau O’n Cyflenwyr	34
Cyflawni Galluogwr 2 – Gwybodaeth Er Gwella	34
Uned Ddadansoddeg Iechyd	34
Deallusrwydd Busnes a Roboteg	35
Safonau ac Awtomatiaeth Codio Clinigol	35
Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol (NDR)	35
Cyflawni Galluogwr 3 – Trefniadaeth Ddigidol “Meddwl yn Ddigidol”	36
Gwella ein Haeddfedrwydd Digidol	36
Gwella Darpariaeth a Gwella Gwerth	37
Cynllunio Ar Gyfer Ein Gweithlu Cyfredol A’r Dyfodol	38
Ymgysylltiad Parhaus Gyda’r Cyhoedd, Cleifion, Gofalwyr a Staff	38
Cyflawni Galluogwr 4 – Partneriaethau Cryf	39
Rhannu Gwybodaeth	39
Cyflawni Galluogwr 5 – Cynhwysiant Digidol	40
Cydweithio	40
Mewnosod Cynhwysiant Digidol	41
Cyflawni Galluogwr 6 – Croesawu Arloesedd	41
Modelau Newydd o Gofal	41
Gweithio Gyda’n Gilydd a’r Arfer Orau	42
Menter Ymchwil Busnes Bach (SBRI)	43
10. MAP FFORDD AR GYFER CYFLAWNI A MEASUR LLWYDDIANT	44
Mesur Llwyddiant	45
11. MONITRO AC ADOLYGU’R STRATEGAETH	45
12. ATODIADAU	46

1. RHAGAIR



Rwy'n falch o rannu ein Strategaeth Ddigidol gyda chi, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol i ni i gyd ond mae hefyd wedi dod â nifer o gyfleoedd a gwersi i ni o safbwynt digidol. Bu'n rhaid i ni weithio'n gyflym yn ddigidol er mwyn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi ein cleifion a'n staff. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys cyflwyno ymgynghoriadau rhithiol, creu systemau data newydd i sicrhau ein bod â mynediad at y data diweddaraf, a chefnogi nifer o staff i weithio o gartref.

Digidol yw'r dyfodol ac rydym yn gwybod bod angen i ni gynyddu cyflymder o ran cyflawni, a chefnogi pobl drwy'r newid hwn, uchafu ein cyllidebau ac arian ychwanegol gyda chynllun clir ar gyfer cyflawni heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol i ni gan ein bod yn flaenorol wedi canolbwyntio ar gyflawni technoleg, ond ein prif ffocws nawr yw sut y gallwn wella profiadau ein cleifion, gofalwyr a staff o ddydd i ddydd trwy weithio gyda nhw.

Mae ein holl gynlluniau yn dod yn fwyfwy ataliol, mae angen i ni ddarparu mynediad i gleifion a gofalwyr i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt allu eu cefnogi i hunan-reoli eu gofal ac mae angen i'n staff allu cael mynediad at yr wybodaeth gywir, yn y lle cywir ar yr amser cywir i allu darparu profiadau diogel, cadarnhaol i gleifion a gwell canlyniadau.

Ein hagwedd yw "Digidol yn Gyntaf – gan adael neb ar ôl". Mae hyn yn hanfodol oherwydd fe all rhai o'n cleifion a'u gofalwyr gael eu heithrio'n ddigidol ac nid ydym am i'r strategaeth hon gael effaith negyddol ar iechyd pobl.

Diolch i bawb sydd wedi ymgysylltu â ni ar y strategaeth hon, fe gawsom ymateb gwych gyda dros 4,000 o sylwadau ac fe welwch fod eich adborth wedi siapio'r strategaeth hon. Byddwn yn parhau i ymgysylltu, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a darparu diweddariad yn flynyddol ar y cynnydd.

Jo Whitehead

Prif Weithredwr BIPBC

2. CYFLWYNIAD

Mae ein Gweledigaeth yn fater o “drawsnewid profiad, diogelwch a deilliannau’r claf trwy ffyrdd digidol o weithio”. Mae hyn yn golygu rhoi profiadau’r cleifion, gofalmwr a staff wrth galon yr hyn a wnawn, ac i wneud hyn mae’n rhaid i ni gael y pethau sylfaenol yn iawn.

Mae’r strategaeth hon yn cefnogi cyflawni ein blaenoriaethau strategol mewn Byw’n Iachach, Aros yn Iach a’r Deilliannau Poblogaeth a Threfniadol, ac y mae adborth o’n ymgysylltu yn sail iddi. Mae’n cynnwys gofal cychwynnol, gofal eilaidd, gofal cymunedol ac iechyd meddwl.

Er i ni wneud rhai buddsoddiadau dros y 3 blynedd a aeth heibio, yr ydym yn dal ar ei hôl hi o ran y lle’r ydym eisiau bod. Nid yw’r lefel bresennol o gyllid wedi ein galluogi i gadw i fyny â chyflymder cynyddol y newid a buddsoddiad cynaliadwy yw un o’r heriau mwyaf o ran gweithredu’r strategaeth hon sydd wedi’i amlygu trwy ein hymgysylltiad.

O ganlyniad, gwyddom fod ein staff yn teimlo rhwystredigaeth gyda’u profiadau digidol dyddiol: sut y maent yn cael mynediad at ddata cleifion, mewngofnodi lluosog, systemau digyswllt, ynghyd â chyfarpar a meddalwedd cyfyngedig neu sydd wedi dyddio. Nod y strategaeth hon yw lleihau’r rhwystredigaeth a darparu ffyrdd mwy effeithiol o weithio.

Mae gallu cael mynediad at y wybodaeth iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn, trwy’r Cofnod Iechyd Digidol (CID) yn allweddol i helpu ein staff i gyflwyno gwasanaeth o’r safon uchaf. Mae’r strategaeth yn rhoi manylion ein cynlluniau er mwyn i hyn ddigwydd, a bydd hefyd yn cynnwys sut yr ydym yn rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau gan fod rhai o’n cleifion yn derbyn triniaeth y tu allan i Ogledd Cymru.

Mae ein cleifion yn haeddu’r profiadau gorau posib. Mae hyn yn golygu bod ganddynt ddewis yn y ffordd y maent yn cyfathrebu â ni, a rhoi sicrwydd iddynt fod rhywun yn gwrandao arnynt, y gallant dderbyn gofal arbenigol yn rhwydd ac yn gyflym, a bod eu gwybodaeth yn ddiogel. Mae’r profiadau allweddol hyn a’r modd y byddwn yn eu cyflawni wedi eu cynnwys er mwyn sicrhau ein bod yn ateb anghenion ein cleifion. Bu’r ymgysylltu yn gadarnhaol a byddwn yn symud tuag at agwedd sy’n rhoi’r defnyddiwr yn y canol, boed y defnyddiwr yn glaf, gofalwr neu staff.

I ariannu’r strategaeth hon, byddwn yn adolygu’r modd yr ydym yn cyllido’r digidol, yn rhoi blaenoriaeth i’r hyn yr ydym yn gyflwyno ac yn nodi ffynonellau eraill o gyllid. Mae cryn dipyn o drawsnewid yn digwydd nawr yn y gwasanaeth, a rhaid i fwy ddigwydd yn y dyfodol ac ar hyn o bryd, nid oes gennym y gallu na’r capasiti i gyflawni hyn i gyd.

Diogelwch seibr yw un o’r risgiau mwyaf a wynebwn, ac felly un o’n blaenoriaethau allweddol. Mae gennym ddyletswydd i gadw ein cleifion, gofalmwr, staff a’n sefydliad yn ddiogel fel y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau os bydd ein systemau yn cael eu peryglu, er mor annhebygol yw hyn.

Cafodd ein dull o “Digidol yn Gyntaf - gadael neb ar ôl” ei ddatblygu i adlewyrchu pwysigrwydd cynhwysiant a’r lefel uchel o bryder a fynegwyd am hyn yn yr ymgysylltiad. Gwyddom fod 10% o’n poblogaeth wedi eu heithrio yn ddigidol, (nid yw’r ffigwr hwn yn cynnwys cartrefi gofal neu adeiladau ysbyty) ac y mae’r ffigwr hwn hyd yn oed yn uwch yn rhai o’n grwpiau o gleifion. Mae’n bwysig ein bod yn parhau i fod â systemau a phrosesau effeithiol i’r sawl na fedrant gael mynediad at

wasanaethau yn ddigidol, a chydweithio ar yr un pryd i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau digidol petaent yn dewis.

Mae'r Gymraeg a'i diwylliant hefyd yn bwysig, a byddwn yn gweithio ar y cyd i fodloni Safonau'r Gymraeg.

Ni allwn gyflawni'r Strategaeth hon ar ein pennau ein hunain, un o'r galluogwyr allweddol ar gyfer y strategaeth yw gweithio mewn partneriaeth. Y meysydd allweddol i weithio mewn partneriaeth yw ein timau adnoddau cymunedol ac iechyd meddwl, cynhwysiant digidol, sgiliau digidol, ymchwil a datblygu ein gweithlu at y dyfodol.

Gwyddom nad yw trawsnewid digidol yn hawdd. Mae'n fwy na rhoi systemau ar waith: mae hefyd yn golygu newid ein diwylliant, cyflwyno gweledigaeth ar gyfer newid, a chefnogi staff a phob defnyddiwr yn ystod y newid.


Ein gweledigaeth yn y tymor hir yw gweithio tuag at ddatblygu Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ledled Gogledd Cymru, a fydd yn gwneud yn siŵr ein bod yn cydweithio i gyflwyno gofal wedi ei alluogi trwy dechnoleg, cefnogi gofal yn nes at y cartref, a'n agenda atal.

Mae'r byd digidol yn newid yn sydyn, felly bydd angen i ni adolygu'r Strategaeth hon yn flynyddol, yn enwedig yn unol â'r strategaeth glinigol a'r Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru.

3. EIN GWELEDIGAETH, UCHELGEISIAU A'N GALLUOGWYR DIGIDOL - TROSOLWG

Ein Dyfodol Digidol


“Trawsnewid profiad, diogelwch a deilliannau'r claf trwy ffyrdd digidol o weithio”



4. UCHELGAIS 1 – PROFIAD CLEIFION A GOFALWYR WEDI’U GALLUOGI

Profiadau Cleifion a Gofalwyr

Rydym eisiau i’n Cleifion a Gofalwyr gael y profiadau canlynol:



Rwy'n cael gohebiaeth yn y ffordd sydd orau i mi

- Rwy'n cael gwybod am fy ngofal
- Mae gennyf ddewis o ymgynghori wyneb-yn-wyneb neu dros fideo
- Gallaf drefnu rhai apwyntiadau ar-lein a chael f'atgoffa mewn ffordd sy'n addas i mi
- Gallaf dderbyn fy llythyrau yn ddigidol a gallaf gael mynediad yn haws i gyfeirio atynt yn y dyfodol
- Rwy'n cael gohebiaeth yn fy newis iaith/dull/fformat

Gwrandeir arnaf

- Gallaf ddweud wrthoch am fy ngofal, fy mhrofiad a'm hiechyd fel fy mod yn derbyn y gofal gorau i mi, a'i fod yn gwella gwasanaethau
- Does dim rhaid i mi ail-adrodd fy manylion wrth wahanol unigolion neu sefydliadau sy'n rhoi gofal i mi
- Mae fy hawliau yn cael eu hystyried

Mae gen i well
profiad fel
claf a gwell
ansawdd gofal

- Mae un ffynhonnell fanwl gywir o wybodaeth sy'n cael ei gadw amdanaf a bod gwybodaeth bwysig ar gael i bawb sy'n fy nhrin/fy nghefnogi
- Pan gaf fy nghyfeirio, byddaf yn cael gofal yn haws ac yn gynt
- Mae'r gwasanaethau y byddaf yn eu derbyn wedi eu cynllunio o gwmpas anghenion y claf
- Mae'n haws i mi symud rhwng gwasanaethau
- Gallaf dderbyn peth o'm gofal yn nes at adref
- Rwy'n ddiogel

Gallaf reoli
fy ngofal

- Byddaf yn gallu cael mynediad at fy ngwybodaeth yn haws fel fy mod yn gwybod mwy am fy ngofal a'r dewisiadau sydd ar gael i mi
- Byddaf yn gallu diweddarau rhannau o'm cofnod iechyd fy hun yn y dyfodol fel bod yr unigolyn sy'n darparu fy ngofal yn gwybod mwy amdanaf
- Caf fy nghyfeirio at yr adnoddau a'r apiau hunangymorth addas
- Rwy'n gwybod lle a sut i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn ddigidol

Rwy'n
ffyddiog
fod data
amdanaf
yn ddiogel

- Pan fyddaf yn darparu data amdanaf fy hun, rwy'n gwybod y caiff ei ddefnyddio i roi gofal i mi a gwella gofal iechyd yn unig, ac y caiff ei storio'n ddiogel a'i gadw'n gyfrinachol bob amser

Sut bydd y profiadau hyn yn teimlo'n wahanol i gleifion a gofalmwyr

Mae'r storïau isod sy'n canolbwyntio ar y claf yn dangos sut bydd y profiadau'n teimlo'n wahanol i'n cleifion a'n gofalmwyr.



Mae Dewi'n ddyn 73 oed sydd â diabetes ac mae wedi effeithio ar ei olwg. Mae'n cael triniaeth ar hyn o bryd fel claf allanol yn yr adrannau diabetes ac offthalmoleg. Cafodd Dewi godwm ac aethpwyd ag ef i'r Adran Achosion Brys yn hwyr un noson. Yn ystod ei amser yn yr Adran Achosion Brys, nid oedd yn rhaid i Dewi ail adrodd ei fanylion gan fod ei gynnydd fel claf amser real a'i ddogfennau i gyd ar un system. Roedd gan y staff a oedd yn trin Dewi fynediad at ei Gofnod Iechyd Digidol a monitro amser real ei ddiabetes drwy'r ddyfais roedd yn ei wisgo, felly roedd ganddynt fynediad at wybodaeth hanfodol a oedd yn cefnogi eu penderfyniad o ran y driniaeth gorau i Dewi wrth leihau unrhyw risgiau clinigol. Cafodd Dewi ei ryddhau'n ddiogel yn electronig ac anfonwyd gwybodaeth yn electronig at ei Feddyg Teulu ynghylch y presgripsiwn yr oedd wedi'i gael. Wrth gael ei ryddhau, rhannwyd y wybodaeth yn electronig hefyd gyda'r Tîm Adnoddau Cymunedol, Tîm Amlddisgyblaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ddarparodd ei ofal yn y gymuned.

Mae Lowri yn 27 oed ac mae ganddi fywyd prysur, yn gweithio'n llawn amser ac yn fam sengl. Oherwydd ei chyflwr arennau mae angen iddi fynd i nifer fawr o apwyntiadau cleifion allanol. Yn rhai o'r apwyntiadau hyn mae'n rhaid iddi gael ei gweld yn gorfforol gan glinigwr ond ar adegau eraill nid oes angen hynny. Mae Lowri'n gweithio gyda'i chlinigydd i ddatblygu cynllun ar gyfer defnyddio ymgynghoriadau rhithiol gan fod hyn yn arbed 1 awr o amser teithio i bob apwyntiad a £30 mewn ffioedd gofal plant.



Mae Elin yn 20 oed ac yn astmatig ac mae hi eisiau chwarae rhan weithredol yn ei gofal gan fod hyn yn ei helpu i reoli ei chyflwr yn well. Mae hi'n hoffi gweld ei chanlyniadau profion diweddar a'u cymharu â'i chanlyniadau diwethaf ac mae hi wedi gweithio'n agos gyda'i chlinigydd i allu gwneud hyn. Gall gael mynediad at y wybodaeth hon a rhai rhannau eraill o'i chofnod iechyd digidol drwy'r porth cleifion, lle gall hefyd ddod o hyd i wybodaeth am ei hapwyntiadau nesaf ac os nad ydynt yn addas, gall hi eu newid yn electronig.

Cleifion a Gpfalwyr – Sut y gallwch gefnogi cyflawni'r strategaeth hon

I'r Strategaeth hon lwyddo, mae angen i ni i gyd fynd ati i gymryd rhan. O'r ymgysylltu, roedd ein cleifion a'n rhanddeiliaid yn ehangach yn meddwl mai'r canlynol allai roi'r canlyniadau:

- ✓ **Byddwch yn bositif am dechnoleg newydd** sy'n cael ei ddarparu, byddwch yn barod i roi cynnig arnynt, dysgu sut maent yn gweithio ac adrodd yn ôl i ni i ddweud lle gellir gwella, trwy amrywiol ffyrdd o ymwneud
- ✓ **Rhaid croesawu'r dechnoleg yn eich cartref**, gofynnwch am help pan fydd angen, er mwyn i chi gael cefnogaeth i ddatblygu eich sgiliau digidol
- ✓ **Rhannwch brofiadau da** gyda'r teulu, ffrindiau a rhwydweithiau i helpu hyrwyddo'r defnydd o atebion digidol
- ✓ **Cymerwch gyfrifoldeb am eich iechyd eich hun** trwy ddefnyddio ffynonellau dibynadwy eraill o wybodaeth pan fydd angen, gan roi gwybodaeth gywir i ni amdanoch chi, a thrwy gadw'r wybodaeth honno'n gyfoes.
- ✓ **Defnyddiwch ein gwasanaethau yn gyfrifol**, gan ddefnyddio'r gwasanaethau iawn, ar yr adeg iawn ac am y rhesymau iawn.
- ✓ **Byddwch yn gefnogol ac yn amyneddgar** gan fod ffyrdd newydd o weithio yn mynd o chwith ambell waith

5. UCHELGAIS 2 – STAFF SYDD WEDI CYSYLLTU

Profiadau'r Staff

Rydym eisiau i'n Staff gael y profiadau canlynol:



Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau gwell, mae gen i'r wybodaeth gywir ar y pwynt gofal

- Rwy'n gwybod sut i gael mynediad at yr holl wybodaeth y bydd arna'i ei angen
- Rwy'n adnabod fy nghleifion yn well gan fy mod wedi gwrandao ar y wybodaeth a roddwyd ganddynt yn ystod ac ar ôl y gofal a ddarperais

Gallaf ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu digidol i weddu i anghenion fy nghleifion

- Gallaf ddefnyddio ymgynghoriadau rhithiol lle maent yn fwy addas i fy nghleifion
- Gallaf gynnal sesiynau grŵp a gweithio ar y cyd â phartneriaid gofal ieuchyd eraill lle bydd o les i fy nghleifion

Mae gen i'r sgiliau digidol, yr hyder a'r offer cywir i wneud fy swydd

- Rwy'n cael fy nghefnogi i ddatblygu fy sgiliau digidol a gwn lle i fynd i gael cefnogaeth
- Mae gen i'r cyfarpar cywir i wneud fy ngwaith

Rwy'n cymryd
rhan weithredol
yn gwella fy
ngwasanaeth

- Mae gen i fynediad rhwydd at y data a'r wybodaeth y mae arnaf eu hangen i adolygu perfformiad a safonau
- Rwyf yn rhan o'r cyfan ac yn gallu dylanwadu ar welliannau yn fy ngwasanaeth a'm sefydliad
- Gallaf weld lle gall atebion digidol fy nghefnogi i roi gwell gwasanaeth i fy nghleifion

Gallaf weithio'n
effeithiol fel rhan
o dim Mewnol neu
gyda phartneriaid
allweddol

- Gallaf rannu a derbyn gwybodaeth a chyfryngau yn ddiogel gyda phartneriaid allweddol
- Gallaf ddefnyddio atebion digidol sy'n fy helpu i gydweithio

Gallaf weithio'n
fwy effeithlon
trwy ffyrdd
newydd o weithio

- Gallaf arddweud fy llythyrau yn ddigidol
- Gallaf wneud cais am brofion yn electronig a'u cymeradwyo yn electronig
- Gallaf wneud e-gyfeiriadau a'u derbyn
- Gallaf fewngofnodi un waith a chael mynediad at yr holl systemau allweddol yr wyf angen
- Os yw fy rôl yn caniatáu, gallaf weithio o unrhyw leoliad a chyfarfod â fy nghydweithwyr yn rhithiol sy'n golygu fy mod yn treulio llai o amser yn teithio
- Rwyf yn hyderus yn y systemau yr wyf yn eu defnyddio, ac maent yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf
- Gallaf reoli meddyginiaethau a rhagnodi yn electronig
- Rwyf yn cyfrannu tuag at well cyfathrebu rhwng Gofal Cychwynnol a Gofal Eilaidd
- Rwy'n gwybod lle mae fy nghleifion er mwyn i mi allu sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cyflawni ar amser i leihau'r cyfnod y maent o'r cartref

Sut bydd y profiadau hyn yn teimlo'n wahanol i Staff

Mae'r storïau isod sy'n canolbwyntio ar y claf yn dangos sut bydd y profiadau'n teimlo'n wahanol i'n staff

Mae Kate yn Feddyg sy'n gweithio ar draws dau o'r tri ysbytai llym. Mae gan Kate fynediad at set safonol o'r systemau y mae'n ei defnyddio bob dydd ac mae'n gallu mewngofnodi unwaith ar gyfer pob un o'r rhain, sy'n arbed llawer o amser iddi. Mae gan Kate hefyd fynediad at yr un systemau ar draws y ddau ysbyty felly does dim rhaid iddi ddysgu defnyddio dwy system wahanol.





Mae Meinir, Rob a Lesley i gyd yn gweithio yn y Tîm Adnoddau Cymunedol ym Mangor. Mae Meinir yn nyrs ardal, mae Rob yn Weithiwr Cymdeithasol a Lesley yw'r Meddyg Teulu lleol. Gallant rannu gwybodaeth yn ddiogel gyda'i gilydd sy'n caniatáu iddynt weld y wybodaeth am yr unigolyn y maent yn gofalu amdano mewn un lle, gydag un cynllun gofal y gallant i gyd gael mynediad ato a'i ddiweddarau. Does dim rhaid iddynt barhau i ofyn yr un cwestiynau ac mae ganddyn nhw bopeth sydd ei angen arnynt i wneud eu swyddi mewn un lle.

Staff – Sut y gallwch gefnogi cyflawni'r strategaeth hon

I'r Strategaeth hon lwyddo, mae angen i ni i gyd fod yn rhan:

- ✓ **Byddwch yn bositif am dechnoleg newydd** y mae gennych fynediad ato, bod yn barod i roi cynnig arnynt, dysgu sut y maent yn gweithio ac adrodd yn ôl i ni i ddweud lle gellir gwella, trwy amrywiol ffyrdd o ymgysylltu
- ✓ **Hyrwyddwch ffyrdd digidol o weithio i gydweithwyr** ac ystyriwch helpu eraill sy'n llai hyderus, efallai trwy ddod yn Hyrwyddwr Digidol i'ch gwasanaeth
- ✓ **Byddwch yn rhagweithiol wrth ddatblygu eich sgiliau digidol** i gadw'n gyfoes â'r dechnoleg, y dyfeisiadau a'r systemau diweddaraf
- ✓ **Defnyddiwch ddata** i wneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau
- ✓ **Hyrwyddwch newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno** trwy gael sgysiau gonest gyda chleifion a bod yn ddigon hyderus i helpu cleifion lle mae angen
- ✓ **Mynd ati i ymwneud a'r sefydliad ehangach** pan gyfyd y cyfle, er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cael dweud eich dweud ar bopeth digidol
- ✓ **Cefnogwch nodi a gwireddu'r manteision** y gellir eu cael trwy ddefnyddio atebion digidol

6. Y 6 GALLUOGWR

I'n galluogi i gyflwyno ein Gweledigaeth, Uchelgeisiau a'n Profiadau, byddwn yn canolbwyntio ar y galluogwyr isod. Gweler hefyd y Cynlluniau Cyflawni yn Atodiad 2.



Galluogwr 1 – Sylfeini Digidol Cryfach



“Mae ein seilwaith TGCh, systemau, dyfeisiadau a’r gefnogaeth a ddarperir yn addas ar gyfer heddiw a’r dyfodol; mae gennym ddiogelwch a llywodraethiant cryf i’n gwybodaeth ac yr ydym yn cael y gorau gan ein cyflenwyr”

Rhaid i ni “Fuddsoddi yn y sylfeini a’u cael yn iawn”. Dyma’r neges allweddol o’n hymwneud â’n staff. Mae gosod sylfeini digidol cryf yn hanfodol i ni er mwyn bod yn sefydliad digidol fel y mynnwn fod, i’n galluogi i gyflwyno’r profiadau i gleifion a staff, a chyflwyno’r newidiadau sydd eu hangen yn ddiogel ac yn gynt.

Mae’r sylfeini hyn yn cynnwys ein rhwydweithiau, dyfeisiadau, caledwedd, systemau, storio a ffonau.

Seibr-ddiogelwch yw un o’r risgiau mwyaf a wynebwn; mae ymosodiadau dyddiol wedi dod yn gyffredin, ac yr ydym yn gweithio gyda swm enfawr o’r data personol mwyaf sensitif y mae rheidrwydd arnom i’w gadw’n ddiogel. Rydym o ddifrif ynghylch y risg uchel hon, ac fe wnawn bopeth yn ein gallu i atal ymosodiadau. Os bydd ymosodiad yn digwydd, byddwn yn ddigon gwydn i leihau’r niwed ac adfer yn ôl y galw.

Mae gennym lawer iawn o gyflenwyr a rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn rheoli’r hyn sydd gennym yn dda, yn prynu union yr hyn sydd arnom ei angen, am y pris/gwerth gorau, a’n bod yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda’n cyflenwyr.

Galluogwr 2 – Gwybodaeth er Gwella



“Rydym yn defnyddio data a gwybodaeth i wneud gwell penderfyniadau, rhagweld y galw a gwella gwasanaethau”

Mae cael y sylfeini’n iawn yn golygu bod yn rhaid i’n data fod yn gywir, hygyrch, bod modd ei ddefnyddio a’i fod yn ddigon cadarn i fod o fwyaf o fudd i’n staff a gwella ein gwasanaethau. Mae swm y data a’r wybodaeth sydd gennym yn tyfu’n gyflym. Rhaid i ni fanteisio arno i’r eithaf er mwyn cyflwyno gwasanaethau o safon yn awr ac yn y dyfodol.

Mae ein technoleg gwybodaeth busnes (GB) a’n sgiliau yn hanfodol er mwyn cyflawni’n weithredol, gan alluogi’r sefydliad i wneud penderfyniadau yn syth ac yn y tymor byr a chanol. Mae angen i ni hefyd ddatblygu ein gallu i fodelu, a fydd yn rhoi i ni ffordd rhagweithiol o ddeall effaith tymor-hir unrhyw newid a wnawn, a rhagweld y cyflenwad a’r galw am ein gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i gynyddu’r defnydd o’n Dangosfyrddau GB ar draws y sefydliad, a byddwn yn symud tuag at ffordd o helpu ein hunain trwy roi i’r gwasanaethau y dangosfyrddau a’r arfau i holi. Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau i ganolbwyntio ar feysydd pwysig eraill o wybodaeth.

Mae agwedd gyson at adroddiadau yn bwysig er mwyn hyder y staff a sicrhau eu bod yn eu defnyddio. Byddwn yn adolygu ein hadroddiadau a’n dangosfyrddau presennol, gan sicrhau bod cysondeb o ran eu golwg a’u teimlad.

Mae Awtomeiddio Proses Robotaidd (APR) yn erfyn sydd wedi cael ei brofi, a llawer math o ddefnydd iddo ar draws y GIG. Gall APR awtomeiddio tasgau ailadroddus ar draws apiau a systemau. Byddwn yn defnyddio’r ethnigrwydd a’r dewis o iaith o’r rhaglen frechu yn erbyn COVID-19 fel cynllun peilot i’r APR, gan roi y data yn ein System Weinyddu Cleifion.

Mewn Codio Clinigol byddai SNOMED- CT yn rhoi i ni iaith glinigol strwythuredig sy'n cael ei rhannu ac y gall cyfrifiaduron ei darllen. Mae wedi ei ffurfio o dermau clinigol sy'n cynnwys gweithdrefnau, symptomau, mesuriadau clinigol, diagnosis a meddyginiaeth. Bydd SNOMED yn cefnogi rhannu data rhwng systemau, ac yn benodol ein Cofnod Iechyd Clinigol newydd. Byddwn yn dechrau awtomeiddio Codio Clinigol gan ei fod yn caniatáu i wybodaeth am ein cleifion fod ar gael mewn amser real, gan arbed amser ac adnoddau.

Bydd ein gwaith fel rhan o'r Adnodd Data Cenedlaethol (ADC), yn cyfrannu at sefydlu storfa ddata genedlaethol fydd yn defnyddio methodolegau Cloud a 'Big Data'. Byddwn yn sefydlu fframwaith negeseuon amser-real sy'n golygu y bydd data'n cael ei fwydo'n amlach ac yn fwy amserol er mwyn adrodd.

Bydd yr ADC yn hwyluso mynediad at setiau data allweddol fel bod modd adrodd a rhoi mewnwelediad lleol er mwyn gwella'r gofal a gaiff y cleifion. Bydd dadansoddi pellach yn bosib oherwydd y bydd modd cael mynediad at offer data modern.

Galluogwr 3 – Trefniadaeth Ddigidol “Meddwl yn Ddigidol”



“Meddwl yn Ddigidol” Rydym yn mynd ati i ddatblygu ac aeddfedu ein diwylliant digidol trwy arweiniad ymrwymedig ac atebol, bod yn integredig trwy ein prosesau cynllunio busnes gyda'r buddsoddiad addas i wella. Cyflwyno buddiannau i gleifion a staff: ariannol, heb fod yn ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol.”

Er mwyn cyflwyno newid trawsnewidiol, rhaid i ni fod yn Sefydliad Digidol. Mae hyn yn golygu mwy na chael systemau a phrosesau ar waith; mae hefyd yn fater o bobl a ffyrdd o feddwl a gweithredu. Rydym eisiau i'n staff, cleifion a gofalfwyr i “Feddwl yn Ddigidol.” Bydd meddwl yn ddigidol ar draws y sefydliad yn newid mawr i ni, ond dyna mae'n rhaid i ni wneud er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu gofal rhagorol yn awr ac yn y dyfodol.

Mae llawer o brosiectau trawsnewid yn methu oherwydd heriau i ddiwylliant y sefydliad, felly yr ydym yn blaenoriaethu ac yn buddsoddi amser mewn gwella ein parodrwydd digidol er mwyn gwneud yn sicr y byddwn yn fwy llwyddiannus wrth gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen.

Rydym wedi cychwyn ar ein taith i ddod yn sefydliad digidol; rydym wedi gweld fod angen gwella ein parodrwydd digidol a chryfhau ein llywodraethiant, safonau gwasanaeth, cyllid, cynllunio a'r modd yr ydym yn cyflwyno ein prosiectau. Yr unig ffordd i wneud hyn yw trwy barhau i fynd ati i ddatblygu ein staff a dysgu a thyfu trwy ymgysylltiad ystyrlon.

Mae dynodi a chyflwyno buddion i ddangos y gwahaniaeth y mae'r Strategaeth hon yn ei gwneud yn bwysig ac yn un o'n mesurau allweddol o lwyddiant. Yn ogystal a buddion ariannol a heb fod yn ariannol (cymdeithasol) byddwn hefyd yn asesu buddion amgylcheddol yn sgil datrysiadau digidol.

O'r ymgysylltu, gwyddom nad yw'r rhan fwyaf o'n staff yn gyfarwydd â'n hamcanion digidol cyfredol; mae'n rhaid i'n staff wybod beth yr ydym yn anelu ato.

Galluogwr 4 – Partneriaethau Cryf



“Gallwn rannu gwybodaeth berthnasol yn ddi-dor gyda'n partneriaid allweddol a byddwn yn gweithio ar y cyd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda'n Cleifion, Staff, Partneriaid Allweddol a Chyflenwyr”

Un o'r meysydd pryder allweddol gan y cyhoedd a chleifion o'r ymgysylltu yw diogelwch y wybodaeth maent yn roi i ni felly fe wnawn sicrhau bod diogelu data a diogelwch gwybodaeth yn flaenoriaeth. Er mwyn rhoi'r gwasanaethau gorau i'n cleifion sy'n derbyn gofal gan nifer o sefydliadau, rydym eisiau gallu rhannu a derbyn gwybodaeth yn ddi-dor gyda'n partneriaid pan fydd angen gwneud hynny, fel bod gan bawb y wybodaeth iawn ac nad oes rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn y gofal ail-adrodd ei hanes.

I ateb anghenion ein cleifion a'n staff mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd yn fwy cynhyrchiol (gwneud pethau "gyda" yn hytrach nag "i"). Yr ydym yn ymdrin â hyn yn fwy manwl yn sut y byddwn yn cyflwyno'r profiadau i gleifion a staff a'n hagwedd yn defnyddio Dylunio â'r Defnyddiwr yn Ganolog.

Yr agwedd hon o weithio'n fwy cyd-gynhyrchiol yw'r hyn yr ydym am ddefnyddio gyda'n partneriaid allweddol i fanteisio i'r eithaf ar weithio ar y cyd ar gyfer ein cleifion a staff. Byddwn yn gwreiddio hyn yn ein ffyrdd o weithio.

Mae ein timau adnoddau cymunedol ac iechyd meddwl yn gweithio fel rhan o dimau integredig gyda'n partneriaid allweddol. Rydym wedi adnabod yn barod bod angen i ni ddarparu model gwahanol o gefnogaeth ddigidol i'n holl wasanaethau a bydd y model hwn ar gyfer y ddau wasanaeth yma yn wahanol oherwydd y lefel o waith integredig er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a datblygu eu cynlluniau digidol hir-dymoreu hunain.

Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth ac rydym wedi ymrwymo i gael Strategaeth Ddigidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Cyd ledled Gogledd Cymru, er mwyn rhoi gwell profiadau i'n cleifion/defnyddwyr gwasanaeth a'n staff.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ar gyfleoedd digidol fydd o les i'n cleifion a'n staff.

Un o'r meysydd allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yw sgiliau digidol ein cleifion a'n staff. Ymdrinnir yn fanylach â hyn yn Galluogwr 3 – Trefniadaeth Ddigidol a Galluogwr 5 – Cynhwysiant Digidol.

Galluogwr 5 – Cynhwysiant Digidol



“Rydym yn llwyr ymwybodol o effaith unrhyw ffyrdd newydd o weithio ar ein cleifion, gofawyr a'n staff fel y gallwn roi cynlluniau ar waith i sicrhau cynhwysiant.”

Yr oedd pryderon am eithrio digidol yn thema gyffredin yn ein hymgysylltiad i gyd. Yr oedd y cyhoedd/cleifion yn meddwl mai eithrio digidol oedd un o'r 3 phrif reswm pan atebwyd y cwestiwn “beth yn eich barn chi allai atal y profiadau uchod rhag digwydd, neu eu rhwystro?”

Nid yw 10% o boblogaeth Cymru ar-lein, ac nid oes gan 27% o'r rhai sydd yn defnyddio'r rhyngwrdd o leiaf un o'r pum sgil digidol sylfaenol:

1. Trin gwybodaeth a chynnwys
2. Cyfathrebu
3. Cynnal trafodion
4. Datrys problemau
5. Bod yn ddiogel a chyfreithlon arlein

Mae pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl â chyflyrau iechyd tymor-hir sy'n eu cyfyngu yn llai tebygol o fod arlein; y rhain hefyd yw'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod angen cefnogaeth gyda gofal iechyd a chymdeithasol. Mae mwy o wybodaeth am gynhwysiant digidol a sgiliau sylfaenol yma:

[Cynhwysiant Digidol a Sgiliau Sylfaenol](#)

Dywedodd 87% o'r bobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn gyffredinol dda eu bod yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth iawn pan fyddant yn sâl, o gymharu â 68% o'r rhai gwael eu hiechyd. Mae pobl sydd yn meddu ar y pum sgil digidol (cyfnod o 3 mis yn 2019) yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio'r rhyngwrdd i gael mynediad at wybodaeth iechyd na'r rhai hynny sydd â llai o sgiliau. Dywedodd canrannau tebyg o bobl eu bod yn medru dod o hyd i'r wybodaeth iawn i'w helpu i fyw yn iach.

Ein hagwedd ni yw "Digidol yn Gyntaf - gadael neb ar ôl." Byddwn yn parhau i ddarparu a chefnogi pobl i gael mynediad at ein gwasanaethau mewn ffyrdd heb fod yn ddigidol, e.e., trwy apwyntiadau wyneb-yn-wyneb. Os na wnawn hyn, fe allai effeithio ar anghydraddoldebau iechyd sy'n bod eisoes.

Mae hwn yn faes pwysig i ni barhau i weithio mewn partneriaeth arno fel rhan o'n Menter Cymunedau Digidol, i wreiddio Cynhwysiant Cymdeithasol a ffurfio perthynas gryfach â Chymunedau Digidol Cymru a/neu raglenni eraill Llywodraeth Cymru sydd yn anelu at leihau eithrio digidol er mwyn ennill mwy o arbenigedd a phrofiad yn y maes hwn.

Galluogwr 6 – Croesawu Arloesedd



“Rydym yn cadw’n gyfoes â syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio, a bod yn rhan o ymchwil a datblygu arloesol a buddsoddi ynddo. Yr ydym yn dysgu o’r arferion gorau ac yn barod i’w mabwysiadu”

Rydym eisiau bod un cam o flaen y dechnoleg bresennol a newydd sydd ar gael, a sut y gallwn ei ddefnyddio.

Byddwn yn cadw ar ben ac yn adolygu modelau gofal newydd i wella'r gofal rydym yn ei ddarparu. Byddwn yn cynnwys y rhain yn ein strategaeth glinigol sy'n datblygu.

Mae ymchwil yn elfen bwysig o arloesi yn y byd digidol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran cyflwyno amgylcheddau clinigol digidol y gall cleifion a staff elwa arnynt.

Dyma faes lle gallwn weithio mewn partneriaeth gyda'n Tîm Ymchwil a Datblygu ein hunain, a'r Hwb Rhanbarthol Ymchwil, Arloesedd a Gwella (sy'n cael ei gyflwyno gan Gydweithrediad Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru) yn ogystal â chyrrff Addysg Uwch a Cholegau yn lleol a chenedlaethol.

I sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, rydym yn ymrwymo i gytuno ar gyfran o amser ein staff Gwybodeg i wneud hyn bob blwyddyn.

Mae angen i ni adolygu sut rydym yn rheoli ymchwil a datblygiad o fewn Gwybodeg fel bod gan y gwasanaethau gyswllt uniongyrchol i adolygu cyfleoedd.

Mae gennym hefyd rai enghreifftiau ardderchog o arferion da ar draws BIPBC, gan ein partneriaid a byrddau iechyd eraill, a byddwn yn creu fforwm i ddysgu oddi wrth y rhain.


Byddwn hefyd yn parhau i arwain ar y Fenter Arloesedd Busnesau Bychain (MABB) sy'n gweithio gyda chyrrff y sector cyhoeddus ledled Cymru i ddatblygu atebion newydd lle nad oes rhai yn barod. Menter ar y cyd ac agwedd gydweithredol yw hon lle'r ydym yn adnabod anghenion heb eu hateb gyda'n cydweithwyr mewn iechyd, ac yn gwahodd diwydiant ac academia i weithio'n agos gyda ni er mwyn datblygu ateb ar y cyd sydd yn cwrdd â'n hanghenion. Rydym hefyd eisiau mynd â hyn ymhellach trwy arwain ar MABB ledled y DU i weithio gyda phob un o'r gwledydd er mwyn cael effaith ehangach ar iechyd poblogaeth y DU.

7. CYD-DESTUN CENEDLAETHOL A LLEOL

Cyd-destun Cenedlaethol

Ein Hamgylchedd Deddfwriaethol a Strategol

Fel Sefydliad Sector Cyhoeddus, mae gennym ddyletswydd i gadw at nifer o ddeddfau a deddfwriaethau allanol. Rydym wedi cymryd y ddeddfwriaeth ganlynol i ystyriaeth wrth ddatblygu'r Strategaeth hon a byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i fodloni eu gofynion wrth i ni ddarparu:



Strategaethau, Cynlluniau a Rhaglenni Cenedlaethol

Mae llawer o strategaethau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol y mae angen i ni eu darparu a'u hysgytied yn y Strategaeth hon hefyd. Gellir dod o hyd i restr lawn o'r rhain yn Atodiad 2. Y ddau allweddol yw:

Cymru Iachach: Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018) sy'n cydnabod technoleg gofal iechyd digidol fel galluogwr allweddol i newid trawsnewidiol. Mae hefyd yn cydnabod heriau gyrru newid digidol ar gyflymdra a graddfa ar draws iechyd a gofal yng Nghymru. Mae nodau pedwarplyg y cynllun fel a ganlyn ac wedi cael eu defnyddio i ddatblygu ein canlyniadau poblogaeth.

- Gwell iechyd a lles i'r boblogaeth
- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy hygyrch ac o ansawdd gwell
- Iechyd a gofal cymdeithasol o werth uwch
- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ysgogol a chynaliadwy

Mae **Iechyd Digidol Gwybodus- Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru (2015)** yn amlinellu gwelediad sy'n cynnwys cefnogi pobl a gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio gwybodaeth wrth gael eu galluogi gan Bensaerniaeth Ddigidol GIG Cymru.


[Iechyd a Gofal Gwybodus - Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru](#) (Rhagfyr 2015):



Mae'r Strategaeth hon, Cymru lachach a'r Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2018) a ddynododd yr heriau o ran darparu trawsnewidiad digidol ac ar gyflymdra i gyd wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer newid digidol yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu corff newydd o'r enw Iechyd a Gofal Digidol Cymru (e elwir yn NWIS - Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn flaenorol) a phenodi Prif Swyddog Digidol (CDO) ar gyfer Iechyd a Gofal a fydd yn diffinio gwasanaethau a safonau cenedlaethol.

Darpariaeth Genedlaethol


Mae Gofal Iechyd Digidol Cymru (DHCW), sy'n awdurdod iechyd arbennig yn arwain ar drawsnewidiad digidol Iechyd a Gofal yn GIG Cymru. Mae ganddo gyfrifoldeb i ddarparu Gwybodeg i Ofal Cychwynnol a rhai o'r Gwasanaethau ICT a Phrosiectau yn genedlaethol drwy roi ystod o wasanaethau a datrysiadau i ni. Mae'r Strategaeth hon yn cynnwys gwaith mewn perthynas â Gofal Cychwynnol ond mae llawer o'r gefnogaeth a ffyrdd newydd o weithio yn cael ei wneud gan DHCW y byddwn yn gweithio'n agosach â hwy. Mae DHCW yn cael ei ariannu'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r canlynol ar ein rhan:



Mae DHCW yn cefnogi'r holl Fyrddau Iechyd trwy ddull "Unwaith i Gymru", gan gydnabod bod Byrddau Iechyd mewn gwahanol gamau o'u taith ddigidol sy'n golygu nad yw datrysiadau cenedlaethol weithiau'n bodloni ein hanghenion lleol a gall achosi oediadau.

Gwybodaeth am Ogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru yn le gwyh i fyw a gweithio ynddo, mae'r canlynol yn cynnwys rhai o'r prif ffeithiau a ffigurau am boblogaeth Gogledd Cymru sy'n rhoi rhai o'r heriau yn ymwneud â darparu gwasanaeth i ni. Rydym wedi ystyried y rhain i ddatblygu'r Strategaeth hon a byddwn yn parhau i ystyried anghenion newidiol ein poblogaeth.



Gwybodaeth am BIPBC

Mae'r Strategaeth hon yn cefnogi darparu ein Strategaeth BIPBC, "Byw'n Iach, Aros yn Iach - Gweithio mewn Partneriaeth i Wella Iechyd a Darparu Gofal Rhagorol ar draws Gogledd Cymru" sy'n diffinio ein modelau o ddarparu gofal yn y dyfodol. O ran darparu mwy o ofal yn agosach at y cartref, bydd gwasanaethau'n cael eu darparu drwy dimau adnoddau cymuned lleol, yn cynnwys awdurdodau lleol a phartneriaid y trydydd sector, gan gynnig ystod o gyngor, asesiadau a thriniaeth. Bydd y timau lleol yn cael eu cefnogi gan 14 clwstwr gofal cychwynnol sy'n rhoi mynediad at wasanaethau mwy arbenigol heb orfod mynychu ysbyty llym. Bydd y clystyrau gofal cychwynnol yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl a bydd bob un wedi'i seilio ar boblogaeth o oddeutu 50,000.



Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi darparu ein 9 Deilliant Poblogaeth a Sefydliadol ar gyfer 2021 - 2024:

Deilliannau Poblogaeth

- Deilliant 1 - Bod gan bobl yng Ngogledd Cymru iechyd a lles gwell gydag ataliad a hunan reolaeth well.
- Deilliant 2 - Bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch yn cael eu galluogi gan ddigidol a'u cefnogi gan ymgysylltiad.
- Deilliant 4 - Bod y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn ysgogol a chynaliadwy.
- Deilliant 5 - Bod system iechyd a gofal cymdeithasol o werth uwch sydd wedi dangos arloesedd a gwelliannau cyflym.
- Deilliant 6 - Iechyd gwell a lleihau anghydraddoldebau.

Deilliannau Sefydliadol

- Deilliant 7 - Trawsnewidiad gwasanaeth
- Deilliant 8 - Cynnydd yn erbyn gofynion ymyriad a dargedwyd
- Deilliant 9 - Gwasanaeth o ansawdd tymor hir a chynaliadwyedd ariannol

Gwybodeg yn BIPBC

Mae ein Tîm Gwybodeg yn cefnogi darparu ar draws y Bwrdd Iechyd ac wedi'i wneud o TGC, Cofnodion Cleifion ac Integreiddiad Digidol, Gwybodaeth a Rhaglenni a Chodio Clinigol, Sicrwydd a Gwelliannau.

- **TGC**

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGC) yw datblygu, rheoli a chefnogi isadeiledd TGC craidd, yn cynnwys systemau a gwasanaethau, rhwydweithiau, teleffoni, cyfrifiaduron personol, e-bost a chydweithio a chyfathrebu ffôn symudol yn ogystal â darparu'r Ddesg Gwasanaeth a Chymorth ac Ymgysylltu Cwsmeriaid.

- **Cofnodion Cleifion ac Integreiddiad Digidol**

Mae'r Adran Cofnodion Cleifion ac Integreiddiad Digidol yn darparu ystod gynaliadwy o wasanaethau sy'n adnabyddus am sicrhau ansawdd a safonau cofnodion cleifion, gan sicrhau argaeledd prydlon cofnodion i lywio penderfyniadau clinigol, a bodloni ein gofynion deddfwriaethol o ran ceisiadau mynediad at wybodaeth personol; ochr yn ochr â phrosiectau arweiniol i ddarparu trawsnewidiad diogel o'r papur i ddigidol.

- **Gwybodaeth a Chodio Clinigol**

Mae'r Adran Gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cymhleth ac amrywiol i'r Sefydliad gan gynnwys Rheoli WPAS, Adran Gwybodaeth, Adrodd ar Wybodaeth, Safonau Gwybodaeth, Dadansoddi Gwybodaeth a Chodio Clinigol.

- **Rhaglenni, Sicrwydd a Gwella**

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni, Sicrwydd a Gwelliannau yn rheoli prosiectau a rhaglenni digidol lleol a chenedlaethol gan weithio ar draws y sefydliad. Ymgymryd â Dadansoddi Busnes i gefnogi gwasanaethau gyda'u prosesau a systemau; Darparu cefnogaeth busnes, sicrwydd a gwelliannau i'r Gwasanaeth Gwybodeg ac yn warchodwyr ar gyfer y Ganolfan Busnes Bach ac Ymchwil ac Arloesedd.

8. EIN SEFYLLFA GYFREDOL

Trosolwg Cryno

Rydym wedi cyrraedd pwynt lle rydym yn gwybod bod angen i ni newid neu byddwn mewn perygl o gael ein gadael ar ôl yn y byd digidol. Rydym hefyd wedi amlinellu ein sefyllfa gyfredol o ran bodloni'r amcanion, galluogwyr a systemau cyfredol. Gweler atodiad 4.

BETH SY'N DDA AM EIN SEFYLLFA GYFREDOL

- Rydym yn **safle Rhif 1 yng Nghymru** ar gyfer ein Seilwaith TG yn Adroddiad AWIIR Mawrth 2020 sy'n dangos bod ein cynllunio yn y maes allweddol hwn yn flaengar. Gweler Atodiad 5 am fwy o fanylion
- Gwersi a ddysgwyd o Covid
- Buddsoddi mewn offer uwchraddio am ei fod wedi dyddio

BETH SYFF ANGEN EI WELLA

- Nid ydym yn sefydliad digidol
- Mae'r Gwasanaeth Gwybodeg yn cael ei ystyried fel darparwyr cyfrifiaduron a ffôn a chefnogaeth os aiff pethau o chwith
- Nid oes gennym y systemau craidd ar waith ar draws y sefydliad sy'n gohirio gweithredu swyddogaeth sylfaenol arall (WPAS ac apwyntiadau ar-lein)


BETH SY'N DDA AM EIN SEFYLLFA GYFREDOL

- Gwasanaethau Ffôn wedi eu diweddaru, gan gynnwys switsfyrddau newydd.
- Rhwydweithiau cyfrifiadur newydd
- Wi-Fi Cyhoeddus yn y rhan fwyaf o leoliadau BIPBC
- Gwella canolfannau data gydag amddiffyniad ychwanegol rhag ymosodiadau seiber.
- Dechrau cyflwyno Symphony a fydd y System Adran Achosion Brys Cymru
- Dechrau cyflwyno Ymgynghoriadau Rhithwir
- Mae gweithredu ffyrdd gwell o gofnodi gofal cleifion a data yn cael ei arddangos mewn amser real i gefnogi meddygon ymgynghorol i wneud penderfyniadau yn ddyddiol
- Mae ystod o ddangosfyrddau BI wedi'u datblygu i helpu unigolion a gwasanaethau i wneud penderfyniadau a gwella
- Mae ein Negeseuon Testun Rhybudd yn rhoi gwybod i'n gwasanaethau allweddol pan fydd cleifion yn yr ysbyty i helpu gyda pharhad gofal yn y gymuned ac yn caniatáu i Feddygon Teulu olrhain cynnydd eu cleifion yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty
- Mae ein dull Rheoli Cyfrifon o ran Gwybodaeth yn gweithio'n dda
- Atgoffwyr dros neges destun i gleifion, gyda 12,000 apwyntiad yn cael eu hail-ddefnyddio pan fydd cleifion yn rhoi gwybod nad ydynt yn gallu mynychu. Cesglir iaith ddewisol cleifion fel hyn hefyd
- Rydym yn gwybod beth mae ein cleifion, gofalwyr a'n staff eisiau gan y Strategaeth Ddigidol
- Mae gwaith gyda'r Bwrdd ar aeddfedrwydd digidol wedi dechrau
- Rydym yn arwain ar Arloesedd yn genedlaethol drwy Ganolfan Ragoriaeth Menter Ymchwil Busnesau Bach
- Rydym wedi dechrau'r gwelliant drwy ymgysylltu gyda'n cleifion, gofalwyr a'n staff.
(Gweler hefyd beth wnaethom ei gyflawni yn 2019/20)

BETH SYFF ANGEN EI WELLA

- Mae llawer o'r staff yn rhwystredig gyda'u profiad digidol yn y gwaith
- Mae'r cyhoedd, cleifion a gofalwyr yn poeni am eu heithrio o'r byd digidol
- Rydym wedi buddsoddi ond nid ar y raddfa sydd ei hangen i wreiddio neu arwain y ffordd yn ddigidol yn llawn
- Oherwydd trefniadau cyllid, mae llawer o brosiectau yn dechrau'n lleol ac yn genedlaethol ond nid ydynt byth yn cael eu cwblhau felly ni cheir unrhyw fuddion
- Nid ydym yn darparu ar y cyflymder sydd ei angen am nad ydym yn blaenoriaethu a bod diffyg staff
- Yn gyffredinol, nid yw'r costau yn ein hachosion busnes yn cynnwys costau oes prosiectau hyd at fusnes fel arfer
- Mae ein cyflawniad o rai prosiectau yn dibynnu ar gyllid a chyflenwad cenedlaethol - mae hyn weithiau'n ein harafu, nid ydyn nhw ar yr adeg iawn i ni ac yna mae'r cyllid yn gyfyngedig
- Nid oes gan ambell aelod o staff fynediad at yr offer cywir i wneud eu swyddi
- Mae ychydig o'n caledwedd ar hen dechnoleg
- Mae buddsoddi mewn seiberddiogelwch yn gam hanfodol i gadw ein gwybodaeth yn ddiogel
- Mae'r ffocws o'r blaen wedi bod ar weithredu technoleg yn unig ac nid ar y newid ehangach sy'n ofynnol
- Nid yw'r cysylltiad rhwng darpariaeth ddigidol a bodloni'n hamcanion strategol a chefnogi gwella perfformiad wedi'i ddatblygu'n llawn
- Mae llawer o'n gwasanaethau'n mynd trwy drawsnewidiad, nid yw'r trawsnewidiad hwn yn cael ei gydlyn o safbwynt digidol sy'n arwain at gefnogaeth ad-hoc i wasanaethau
- Nid ydym yn gwybod beth yw lefelau sgiliau digidol ein staff
- Nid ydym yn hyrwyddo ein cyflawniadau digidol yn fewnol nac yn allanol

Gwybodeg – Prif Gyflawniadau



Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi ymateb i Covid, gweler **Atodiad 5 - Ein Hymateb i Covid**.

Ein Prif Heriau

Mae llawer her a allai gael effaith ar ein trawsnewid digidol, ac yr ydym wedi ystyried y rhain wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, a byddwn yn eu hadolygu hefyd fel rhan o'r modd yr ydym yn rheoli ein risgiau. Mae'r 4 her isod yn rhoi crynodeb cyffredinol:



Ein Poblogaeth

- **Mwy o Alw am Wasanaethau:** Bydd poblogaeth y gogledd yn cynyddu wrth i fwy o fabanod gael eu geni ac i bobl fwy yn hwy. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio angen mwy o ofal, a heneiddio hefyd y mae'r gweithlu, felly mae perygl o golli gwybodaeth a phrofiad
- **Cymhlethdod Cynyddol:** Mae gan nifer cynyddol o bobl fwy nag un angen iechyd, felly aiff anghenion iechyd yn fwy cymhleth
- **Cynhwysiant Digidol:** Mae 10% o bobl yng Nghymru wedi eu heithrio yn ddigidol, ac y maent yn fwy tebygol o fod yn hŷn, heb fawr o addysg ac yn wael eu hiechyd. Nid yw pobl sydd wedi eu heithrio yn ddigidol yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth am iechyd a gofal, a gall hyn gael effaith ar nifer y sawl a gyfeirir
- **Ymwybyddiaeth gynyddol ynghylch deddfwriaeth Gwarchod Data:** a'r angen cynyddol i gadw gwybodaeth yn ddiogel



Lleihau Cyllid a Chyllido Tymor-Byr

- **Arbedion:** Dros y 3 blynedd diwethaf, bu'n rhaid i ni wneud arbedion, ac y mae mwy ar y gweill
- **Costau Uwch Technoleg:** oherwydd mwy o alw a chymhlethdod
- **Cyllid Tymor Byr:** Mwy o grantiau tymor-byr a chyllidebau'n lleihau
- **Diffyg Cyllido cynaliadwy:** Mwy o grantiau tymor-byr gyda disgwyliad yn lleol i gynnal a gwella dros y tymor hir, sy'n rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r dyfodol



Cyflymder Newid a Mwy o Alw

- **Cyflymder Newid:** Mae newid ac arloesedd technolegol yn symud yn gyflym
- **Mwy o Alw am Wasanaethau Digidol:** Mae'r galw am wasanaethau digidol a ffyrdd mwy hyblyg o weithio yn cynyddu o du staff a chleifion
- **Datblygu Sgiliau Digidol:** Efallai na fydd sgiliau digidol staff a chleifion yn wastad ddal i fyny â chyflymder newid
- **Llawer o Hen Systemau heb eu Cysylltu:** Mae sawl system a phroses heb eu cysylltu ledled BIBC
- **Dibyniaeth ar Gofnodion Papur:** Mae hyn yn wir ar draws BIPBC felly ceir anhawster wrth i gleifion symud rhwng safleoedd
- **Lefel Isel o Aeddfedrwydd Digidol:** Mae gan ein diwylliant lefelau gwahanol o barodrwydd digidol; rhaid i hyn aeddfedu i gyrraedd y lefel angenrheidiol o newid digidol
- **Cyflwyno Cenedlaethol:** Mae gwahanol sbardunau cenedlaethol nad ydynt yn wastad yn asio gyda'r hyn y mynnwn gyflawni, sydd weithiau yn arafu ein cyflwyno



Gweithio Ynghyd

- **Gwahanol Systemau ac agendaau:** Rydym yn gweithio ynghyd gyda phartneriaid i roi'r hyn sydd orau i'n cleifion a'n staff gan y gall hyn esgor ar well canlyniadau. Gall gweithio ynghyd gymryd mwy o amser a bod yn fwy anodd oherwydd y defnyddir systemau gwahanol
- **Unwaith i Gymru:** Rydym yn gweithio gyda Byrddau Iechyd eraill wedi'i hwyluso gan GIDC i ddatblygu atebion i Gymru: nid yw'r atebion hyn yn wastad yn cwrdd â'n hanghenion ni, ac nid ydynt o hyd yn amserol

Ein Risgiau

I gyflwyno'r Strategaeth hon yn llwyddiannus, rydym wedi nodi'r risgiau canlynol y bydd gofyn i ni eu rheoli. Mae risg yn rhywbeth all ddigwydd all gael effaith negyddol ar gyflawni'r Strategaeth. Fe fyddwn yn eu rheoli trwy ein Cofrestri Risg a thrwy adolygu, monitro ac adrodd yn rheolaidd.

Nodwyd y risgiau hyn trwy'r cyflwyno, yr heriau a'r ymgysylltiad cyfredol:


1. Diffyg buddsoddi cynaliadwy mewn digidol
2. Efallai na fydd seilwaith a phrosiectau cenedlaethol yn cyflwyno'r hyn sydd angen a/neu heb fod ar y cyflymder sydd ei angen
3. Methu cadw i fyny a chyflymder newid digidol i ateb disgwyliadau ein cleifion, gofalwyr a staff
4. Gwybodaeth heb fod yn ddiogel
5. Dim digon o staff, a dim digon o allu yn eu mysg i gyflwyno'r Strategaeth
6. Diwylliant y sefydliad ddim yn newid
7. Diffyg ymgysylltu staff

9. CYFLAWNI'R UCHELGEISIAU A'R GALLUOGWYR

I wireddu ein Gweledigaeth, rydym wedi datblygu cynlluniau cyflawni manwl o ran ein Huchelgeisiau a Galluogwyr, mae'r rhain ar gael yn Atodiad 2 ac rydym wedi rhoi ychydig o fanylion ychwanegol isod.

Gwireddu Uchelgais 1 – Galluogi Cleifion a Gofalwyr

Caiff y broses o gyflawni Profiadau Cleifion a Gofalwyr ei chwblhau trwy'r Rhaglenni neu'r Prosiectau canlynol ond bydd rhai o Brofiadau'r Cleifion hefyd yn cael eu cyflawni trwy Gynllun Cyflawni Staff Cysylltiedig.



Rhaglen Trawsnewid Cleifion Allanol

Rydym wrthi'n datblygu ein Rhaglen Trawsnewid i Gleifion Allanol sydd wedi'i halinio â'r Strategaeth Genedlaethol "Trawsnewid y ffordd rydym yn darparu ar gyfer cleifion allanol." Bydd y rhaglen hon yn cyflawni llawer mwy na'r hyn sydd yn y Strategaeth hon gan mai'r agweddau digidol yn unig yw'r rhain. Bydd y Rhaglen hon yn cynnwys:

- Systemau rheoli cyfeiriadau electronig i'w gwneud yn haws ac yn gyflymach cael gofal arbenigol;
- Technoleg i leihau'r angen i fynd i'r ysbyty am apwyntiad os nad oes ei angen;
- Ffyrdd amgen o roi cymorth trwy ddulliau hunanreoli effeithiol o ran cyflyrau hirdymor sefydlog;
- Ymagweddau amgen er mwyn lleihau'r angen am apwyntiadau cleifion allanol amhriodol;

Bydd y blaenoriaethau digidol a gaiff eu cyflawni'n cynnwys:

- E-gyfeiriadau - i gyflawni hyn, mae'n rhaid i ni fod â'r un System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) ar waith ar draws y sefydliad felly byddwn yn edrych p'un a oes unrhyw ffyrdd eraill o'i datblygu tra byddwn yn sefydlu WPAS.
- Parhau i gyflwyno Ymgynghoriadau Rhithiol
- Rydym yn awyddus i gael y data'n gywir y tro cyntaf a byddwn yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i wella'r broses o ddilysu'r data sydd gennym
- Dulliau Cyfathrebu Gwell

Yn y dyfodol, rydym hefyd yn awyddus i ofalwyr allu trefnu eu hapwyntiadau ar-lein, cyn y gallwn ddatblygu hyn, mae angen i ni sicrhau bod WPAS ar waith ar draws y sefydliad.

Prosiect Llythyrau Apwyntiad Digidol a Nodiadau Atgoffa trwy Neges Destun

Mae prosiect wedi'i sefydlu hefyd i gyflwyno cyfleuster llythyrau digidol a nodiadau atgoffa trwy neges destun trwy "Fy Llythyrau Apwyntiad Ar-lein" - mae hwn wedi'i roi ar waith gan nad yw WPAS yn gwbl weithredol eto.

Cynnwys, Canlyniadau A Phrofiad Cleifion

Ymagwedd wedi'i Dylunio sy'n Ganolog i Ddefnyddwyr (UCD)

Rydym yn awyddus i'n cleifion fod yn ganolog pan fyddwn yn newid neu'n datblygu gwasanaethau digidol newydd sy'n golygu y byddwn yn gweithio gyda phobl a fydd yn eu defnyddio. Proses yw UCD lle caiff anghenion, dyheadau a chyfyngiadau'r defnyddiwr eu hystyried. Trwy'r ymagwedd hon, rydym yn disgwyl cael profiad gwell i ddefnyddwyr ynghyd â sicrhau bod y broses o'i rhoi ar waith yn fwy effeithlon.

Gofal Iechyd ar Sail Gwerth a Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS)

Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi ein Cynllun Gofal Iechyd ar Sail Gwerth ar waith; un o brif feysydd y cynllun hwn yw casglu PROMS fel set ddata allweddol gan y bydd hyn yn caniatáu i ni asesu p'un a ydym yn cyflawni canlyniadau gwell gyda chynaliadwyedd ariannol. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal cynllun peilot o PROMS gyda'n Tîm Orthopaedig.

Gall Digidol hefyd roi cymorth o ran Gofal Iechyd ar Sail Gwerth trwy gynorthwyo gwaith ailgynllunio llwybrau a lleihau galw methiannau.

Profiad Cleifion a Gofalwyr (PREMS)

Fel rhan o'n Cynllun Strategol Profiad Cleifion a Gofalwyr, rydym yn cydweithio ar lefel genedlaethol i fod ag un system sy'n casglu profiad cleifion ac sy'n ei drosi'n gipolygon mewn amser real a fydd yn gwella'r gwasanaethau y mae ein cleifion yn eu derbyn.

Bydd y system ddwyieithog newydd yn gallu casglu data trwy sianeli lluosog h.y. ar-lein, tabled, SMS, ffôn, E-bost (dolenni arolwg), Codau QR a phapur er mwyn sicrhau nad ydym yn eithrio ein cleifion yn ddigidol ac i ddiwallu anghenion o ran nam ar y synhwyrâu.

Bydd y system hon yn casglu Mesurau Cenedlaethol Profiadau Adroddir gan Gleifion. (PREMS)

Dod o hyd i Wybodaeth Iechyd Ar-lein

Mae llawer o wybodaeth iechyd ffug ar-lein, gan y credwn y gallai'r wybodaeth hon beri niwed i'n Cleifion a'n Gofalwyr, byddwn yn hyrwyddo'r adnodd a ddatblygwyd yn rhanbarthol, sef "Dod o hyd i Wybodaeth Iechyd Ar-lein"

Unwaith y bydd y Porth Digidol wedi'i ddatblygu, gallwn hefyd gyflwyno Botiau Sgwrsio, fel y gall cleifion ofalu amdanynt eu hunain trwy fanteisio ar wybodaeth a chyngor.

Prosiect Cofnod Iechyd Digidol (DHR)

Bydd datblygu'r Cofnod Iechyd Digidol yn caniatáu edrych yn unigol ar gofnod y claf, bydd sicrhau bod hwn yn ei le yn cynorthwyo integreiddio â systemau lleol a chenedlaethol a bydd yn rhoi gwell mynediad at systemau a gwybodaeth sy'n ddiogel a lleihau defnydd o bapur o ran sut rydym yn gweithio. Bydd gennym un system sy'n gallu casglu gwybodaeth cleifion o gofnodion sydd wedi'u sganio, cynnwys newydd o e-ffurflenni a'r systemau presennol a systemau yn y dyfodol. Mae rhan o'r prosiect hwn hefyd yn cynnwys datblygu ffyrdd digidol o rannu gwybodaeth ar draws ein ffiniau. Mae'r prosiect hwn wedi dechrau a'r bwriad yw ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd dros bedair blynedd.

Bydd cleifion yn gallu cael mynediad at y wybodaeth hon yn y dyfodol trwy'r Porth Digidol a gaiff ei gyflwyno gan Raglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer y Cyhoedd a Chleifion (DSPP). Mae'n rhaid i DHR a'r Porth Digidol fod ar waith, felly bydd mynediad at wybodaeth yn cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rhaglen Gwasanaethau Digidol Ar Gyfer Y Cyhoedd A Chleifion

Rhaglen genedlaethol yw Rhaglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer y Cyhoedd a Chleifion (DSSP) a fydd yn datblygu Porth Digidol ac yn rhoi mynediad i rannau o'r cofnod iechyd digidol ar gyfer cleifion, gan gynnwys er enghraifft apwyntiadau, presgripsiynau, trefnu profion a chanlyniadau. Bydd cleifion hefyd yn gallu rhoi eu caniatâd i bobl eraill gael mynediad at y cofnod digidol fel eu gofalwyr, pobl sy'n rhoi gofal iddynt ac eraill y byddant yn eu dewis.


Prosiect cenedlaethol dan arweiniad DHCW yw hwn ac rydym wedi'n cynrychioli ar rai o'r grwpiau cyflawni.

Gwireddu Uchelgais 2 – Staff Wedi eu Cysylltu

Mae rhai profiadau staff yn adlewyrchu'r hyn y byddwn yn ei ddarparu i Alluogi Cleifion a Gofalwyr. Y rhain yw:

- Rhoi Cofnod Iechyd Digidol ar waith i gefnogi gwell penderfyniadau
- Gwybod am Ganlyniadau a Phrofiadau cleifion drwy PROMS a PREMS fel y gellir gwneud gwelliannau
- Y gallu i ymgymryd ag Ymgynghoriadau Rhithiol
- Y gallu i wneud e-gyfeiriadau

Bydd darparu'r Profiadau Staff wedi eu Cysylltu yn cael ei gyflawni drwy'r Rhaglenni / Prosiectau a Chynlluniau allweddol canlynol ynghyd â darparu'r Galluogwyr.



Prosiect System Gweinyddu Cleifion Cymru (WelshPAS)

Dyma'r system weinyddu graidd sylfaenol mewn unrhyw ysbyty / cymuned ac nid yw ar waith ar draws y sefydliad cyfan hyd yma. Mae'r PAS yn dogfennu digwyddiadau'r cleifion ac yn darparu cefnogaeth i'r llif gwaith sylfaenol ar gyfer olrhain nodiadau achos, cyfeiriadau, clinigau cleifion allanol a gweithgaredd cleifion mewnol. Bydd cael un PAS ar draws yr holl Ysbytai Llym hefyd yn caniatáu i ni ddefnyddio'r PAS yn llawn a gweithredu systemau newydd sy'n cysylltu â WPAS – nid oes rhaid i ni weithredu systemau sawl gwaith felly bydd yn arbed amser ac arian i ni.

Rhaglen Trawsnewid Cofnodion Cleifion (PRTP)

Mae ein Rhaglen PRTP yn Rhaglen sefydledig a fydd yn parhau i weithio ar gyflawni'r canlynol:

- Cofnod Iechyd Digidol (DHR), creu un lle digidol ar gyfer cofnod y claf, gan gefnogi integreiddiad â systemau lleol a chenedlaethol yng Nghymru a thu hwnt
- Llythyrau Clinig Digidol (Arddywediad Digidol a Chydnabod Lleferydd), sy'n allweddol i gyflawni'r symudiad ehangach o gofnodion papur i gofnodion digidol
- Rheoli Canlyniadau - i ddarparu datrysiad addas at y diben a fydd yn cael ei ddefnyddio ar draws ein timau clinigol a fydd yn gwella diogelwch cleifion ac yn cefnogi'r newid o gofnodion papur
- Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR) - bydd hyn yn trawsnewid y dogfennau nyrsio trwy safoni'r ffurflenni, felly bydd ein holl nyrsys yn defnyddio'r un ffurflenni a byddant yn ddigidol
- Timau Canolog - gan roi'r hyfforddiant a'r amgylchedd cywir i'n staff i sicrhau cydymffurfiaid â'n cyfrifoldebau deddfwriaethol ar gyfer rheoli gwybodaeth cleifion, a'i rannu'n briodol ac yn ddiogel.

Rhaglen Cydweithio, Cynhyrchedd a Gweithio'n Hyblyg

Sgoriodd ein staff "Gallaf weithio'n effeithiol fel rhan o dîm amlddisgyblaethol" fel eu profiad cyfredol uchaf a "Gallaf weithio o unrhyw leoliad a chyfarfod â fy nghydweithwyr yn rhithiol, gan dreulio llai o amser yn teithio" fel y 4ydd profiad cyfredol uchaf – mae'n rhaid i ni barhau i ddarparu a gwella'r profiadau hyn.

Bydd y Rhaglen hon yn newydd ond mae'r prosiectau o fewn hyn yn brosiectau sy'n bodoli eisoes a bydd yn cysylltu â Rhaglen y Gweithlu Corfforaethol a'r dull o weithio'n hyblyg, bydd yn cynnwys:

- Rhoi System Rhannu Gwybodaeth Gymunedol ar waith
- Rhoi Arwydd Unigol ar waith
- Cyflwyno Office 365 yn llawn (Cydweithredol)
- Cyflwyno Cymwyseddau Office 365 a Deallusrwydd Busnes Pŵer (Cynhyrchedd)

Mae rhai o'n timau fel ein Timau Adnoddau Cymunedol a'n Timau Iechyd Meddwl yn gweithio'n agos bob dydd gyda'n partneriaid allweddol megis Gofal Cymdeithasol ac mae angen i ni allu rhannu gwybodaeth am gleifion rhwng partneriaid yn ddiogel. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn bwysig ac mae wedi'i gwmpasu yn Galluogwr 3 - Partneriaethau Cryfach - ond mae arnom hefyd angen y dechnoleg i rannu'r wybodaeth hon fel y gallant weithio mwy fel un tîm i ddarparu'r gofal gorau i'r claf / defnyddiwr gwasanaeth.

Byddwn yn gweithredu System Rhannu Gwybodaeth Gymunedol, sy'n bodloni holl anghenion partner, rydym wedi buddsoddi llawer o amser ac arian eisoes yn System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru felly byddwn yn asesu ai hwn yw'r ateb mwyaf priodol wrth symud ymlaen.

Oherwydd Covid, gweithio o gartref neu unrhyw leoliad yw'r drefn arferol yn awr ac rydym yn disgwyl i'r galw gan ein staff barhau i gynyddu. Mae gan lawer o'n staff rolau sy'n delio â chleifion neu'n darparu cefnogaeth ar y safle ac yn gweithio ar draws safleoedd, mae angen gwasanaeth di-dor ar ein staff o ran o ba safle maent yn gweithio neu a ydynt yn gweithio o gartref.

Mae Office 365 hefyd yn rhoi cyfleoedd inni gael ffyrdd newydd o weithio a byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r rhain fel ein bod yn gweithio'n fwy effeithlon.

Rhaglenni a Phrosiectau Trawsnewidd Gwasanaethau

Mae gennym nifer sylweddol o waith trawsnewid gwasanaethau yn mynd ymlaen ar draws y sefydliad ac mae nifer mwy yn cael eu cynllunio, ac mae digidol yn alluogydd ar gyfer y trawsnewidiadau hyn. Mae sut maent yn cael eu cefnogi gan Gwybodeg yn amrywio yn dibynnu ar y prosiect, a dyma pam ein bod wedi amlygu'r angen am agwedd wahanol ar sut rydym yn cefnogi gwasanaethau sy'n cynnwys cynllunio digidol ar lefel gwasanaeth fel y gellir darparu'r gefnogaeth iawn neu ei flaenoriaethu. (Gweler y rhan Sylfaeni Cryfach a Threfniadaeth Ddigidol). Trwy well cynllunio gwasanaeth byddwn yn gallu gweld yr ystod lawn o drawsnewidiadau gwasanaeth, y gwerth a'u buddiannau. Mae'n rhaid i Drawsnewidiadau Gwasanaeth gael eu harwain gan y Gwasanaethau a'u cefnogi gan yr adran Gwybodeg.

Mae'r Rhaglenni a'r Prosiectau canlynol wedi cael eu dynodi o'r rhai yr ydym yn eu cyflwyno ar hyn o bryd, trwy ymgysylltu a pha gyllid allanol y gwyddom fydd ar gael yn genedlaethol. Maent ar wahanol gyfnodau o gynllunio ac angen cefnogaeth. Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae nifer o wasanaethau yn newid y ffordd maent yn gweithio. Mae angen cynnwys ein Strategaethau Clinigol, Ystadau a Chynladwyedd Amgylcheddol hefyd gan y bydd digidol yn hanfodol i'w cefnogi felly rydym yn gwybod y bydd angen i ni ychwanegu mwy a blaenoriaethu.

- **Adran Achosion Brys – Symphony**

Mae ein Hadrannau Achosion Brys wedi bod o dan bwysau mawr oherwydd Covid ac mae staff sy'n gweithio o dan yr amodau hyn angen gwybodaeth amser real ynghylch pobl sy'n mynychu, pam eu bod yn mynychu, a ble maen nhw yn eu triniaeth, all gyflymu'r rhyddhau.

Mae hyn yn cael ei ddarparu gan Symphony y byddwn yn parhau i'w weithredu a'i uwchraddio yn ein Hysbytai a'n Unedau Mân Anafiadau, ac yna symud ymlaen at y System Adran Achosion Brys Cymru.

Bydd hyn hefyd yn cefnogi lleihad mewn amseroedd aros a chyflymu rhyddhau, felly bydd hefyd yn gwella profiad cleifion.

- **Gofal Dwys Digidol**

Mae hwn yn ei gyfnod cynnar ac mae'n Rhaglen Genedlaethol a fydd yn trawsnewid gofal critigol trwy awtomeiddio'r broses casglu data o'r monitorau a'r dyfeisiau a ddefnyddir i gefnogi cleifion gyda salwch sy'n bygwth bywyd.

- **Fferyllfa – Rheoli Meddyginiaethau ac e-ragnodi**

Roedd Rheoli Meddyginiaethau ac e-ragnodi yn argymhelliad "Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach". Bydd y buddsoddiad cenedlaethol hwn yn cyflymu'r cynlluniau hyn i'w cyflawni yn 2021/22. Bydd y prosiect hwn yn arwain at system reoli meddyginiaethau digidol a System E-ragnodi a bydd hefyd yn galluogi trosglwyddo presgripsiynau yn electronig rhwng Meddygon Teulu a Fferyllfeydd Cymunedol.

- **Fferylliaeth – Trawsgrifio Meddyginiaethau a Rhyddhau Electronig (MTeD)**

Mae MTeD wedi'i weithredu'n rhannol o fewn 69 ward ar draws PBC, ond rydym eisiau iddo fod ar gael yn y 55 lleoliad sy'n weddill drwy Borth Clinigol Cymru. Bydd hyn yn galluogi fferyllwyr i drawsgrifio meddyginiaethau cleifion yn electronig ac i glinigwyr gofnodi crynodeb ynghylch arhosiad claf yn yr ysbyty all gael ei anfon yn electronig a diogel i feddygfeydd Meddygon Teulu.

- **Offthalmoleg – Cyflwyno Gwasanaethau Gofal Llygaid Cynaliadwy**

Bydd y Prosiect Cenedlaethol yn darparu system ddigidol offthalmig a fydd yn darparu cyfeiriadau electronig rhwng meddygfeydd optometreg ac adrannau llygaid ysbytai a galluogi mwy o bobl i gael eu trin a derbyn gofal yn lleol.

Bydd E-gyfeirio yn galluogi gwybodaeth glinigol i gael ei drosglwyddo'n ddiogel ac amserol i gefnogi cyfeiriadau ar gyfer diagnosis a thriniaeth ac osgoi oedi sy'n gynhenid mewn system bapur traddodiadol. Bydd gweithredu system e-gyfeirio a chyflwyno Cofnod Claf Electronig (EPR) ar gyfer gofal llygaid yn galluogi meddygfeydd optometreg cymunedol ac adrannau llygaid ysbyty i gael mynediad ar y cyd at gofnodion cleifion gan alluogi gofal a monitro wedi'i rannu.

- **Ymarferoldeb Ward Digidol**

Gan fod ein wardiau yn defnyddio ystod o systemau, rydym wedi peilota gweithrediad system STREAM sy'n helpu gyda llif a rhyddhau cleifion yn ogystal â datblygu Cofnod Gofal Nyrsio Cymru newydd. Bydd yr ymarferoldeb hwn yn asesu'r gofynion o ran cyllid ar gyfer unrhyw systemau digidol gofynnol a dod ynghyd yr amryw systemau sy'n bodoli tra'n cysylltu i mewn i'r cyllid cenedlaethol Ward Digidol.

- **System Wybodaeth Gwasanaethau Mamolaeth**

Mae “*Gofal Mamolaeth yng Nghymru - Gweledigaeth Pum Mlynedd ar gyfer y Dyfodol (2019-2024)*” yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer ein Gwasanaethau Mamolaeth. O fewn y cynllun 5 mlynedd hwn y blaenoriaethau digidol yw system wybodaeth genedlaethol, cofnod mamolaeth electronig Cymru Gyfan a fydd yn hygyrch i famau unigol ac a fydd wedi'i gysylltu ar draws Cymru fel y gellir cael mynediad atynt gan y gweithwyr proffesiynol sy'n darparu'r gofal.

(Noder: Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae'n newid yn gyflym)

Cynllun Sgiliau Digidol

Fe wnaeth ein staff sgorio “Mae gennyf y sgiliau i weithio'n ddigidol a chael mynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnaf ar gyfer y dyfodol” fel yr ail brofiad uchaf sydd ganddynt ar hyn o bryd ond mae'n bosibl nad yw hyn yn llawn gynrychiadol o'n staff gan ei fod yn debygol na wnaeth y rhai sydd ddim â'r sgiliau hyn gwblhau'r arolwg. Nododd staff hefyd fod angen hyfforddiant a chefnogaeth digidol pellach ac na fydd technoleg yn cael ei ddefnyddio heb y sgiliau i'w ddefnyddio. Mae sgiliau ein staff yn hanfodol i gyflawni'r Strategaeth hon yn llwyddiannus.

“O fewn 20 mlynedd, bydd 90% o'r holl swyddi yn y GIG angen rhyw elfen o sgiliau digidol. Bydd angen i staff allu ymgyswngu ag amgylchedd gofal iechyd sy'n gyfoeth o ddata. Bydd bob aelod o staff angen llythrennedd digidol a genomeg”

Adolygiad Topol, 2019


Mae staff angen bod yn hyderus yn gweithio'n ddigidol, nid yw'n staff i gyd yn hyderus ar hyn o bryd. Mae gan ein staff sgiliau digidol sy'n amrywio'n fawr, o staff sydd ddim yn defnyddio cyfrifiadur fel rhan o'u gwaith beunyddiol i staff sy'n defnyddio sawl system bob dydd.

Byddwn yn datblygu Cynllun Sgiliau Digidol Staff lle bydd sgiliau digidol yn cael eu hystyried yn sgil sylfaenol, gall staff hunanasesu eu sgiliau eu hunain ac fe fydd yn dod yn rhan o'u Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad. Bydd hyfforddiant sgiliau Digidol yn cael ei gyflwyno trwy weithio mewn partneriaeth gyda Chymunedau Digidol Cymru, Undebau a phartneriaid allweddol eraill.

Mae hyn yn ein galluogi ni i asesu a gwella sgiliau digidol ein staff felly pan fyddwn yn gweithredu ffyrdd digidol newydd o weithio, bydd gennym ffordd gytûn o asesu sgiliau ac adnabod lefel y newid a beth sydd ei angen i sicrhau llwyddiant.

Bydd rhan o'r Cynllun Sgiliau Digidol hwn yn cynnwys defnyddio strwythurau cefnogi staff cyfredol a datblygu Hyrwyddwyr Digidol i gefnogi a gwella hyder.

Cyflawni Galluogwr 1 – Sylfeini Digidol Cryfach



Mae Ein Seilwaith, Systemau, Dyfeisiau a Chefnogaeth TGCh a Ddarperir Yn Addas Ar Gyfer Heddiw a'r Dyfodol

Adeiladu Rhwydweithiau Cryf, Cyflym a Gwydyn

Byddwn yn datblygu rhwydweithiau sy'n darparu cysylltedd diogel a chyflym gyda dyluniad cwbl wydn i sicrhau parhad gwasanaeth sy'n cefnogi'r sefydliad i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n parhau i weithio'n ddi-dor.

Byddwn yn cynyddu ystod y lled band yn barhaus i Ysbytai Cymuned a Chanolfannau Gofal Iechyd ac yn datblygu capasiti gwasanaeth diwifr ychwanegol ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwell mynediad corfforaethol ac i gleifion.

Dyfeisiau i'w Defnyddio Unrhyw Dro, Unrhyw Le

Cyflwyno cyfres o gyfrifiaduron, gliniaduron, tabledi a ffonau clyfar modern, diogel, addas i'w diben, sy'n bodloni anghenion gwasanaethau wrth i'w gofynion eu hunain newid i fodloni gofynion cleifion. Defnyddio dulliau cyflwyno meddalwedd i alluogi cyflwyniad cyflym.

Cwblhau ymfudiad ystâd y gyfrifiaduron a'r gliniaduron i Windows 10.

Parhau i gyflwyno'r O365 i gefnogi cydweithredu, gwell cyfathrebu a chapasiti ystwyth fel y'i cynhwysir yn Uchelgais 2 - Staff wedi Cysylltu.

Lleoliad Systemau Craidd

Bydd gennym y systemau canlynol ar waith, dyma'r systemau sydd eu hangen arnom ar waith fel ein systemau craidd:

- Un System Weinyddu Cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd (WPAS)
- Porth Clinigol Cymru (WCP)
- System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru (WLIMS)
- Cofnod Iechyd Digidol (DHR)
- System Rhannu Gwybodaeth Cymunedol (WCCIS yn gyfredol)
- System Adran Achosion Brys Cymru (WEDS)
- System Gwybodaeth Radioleg Cymru (WRIS)
- System Imiwneiddio Cymru (WIS)
- Data Warws ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR).

Sylwer - dyma ein systemau craidd ac mae systemau clinigol/adrannol a chorfforaethol critigol eraill y bydd eu hangen i gyflawni'r Strategaeth hon.

Mae gennym dros 280 system ar draws y sefydliad sy'n cael eu rheoli mewn ffyrdd gwahanol. Rydym eisiau i bob un o'r systemau gael Cynlluniau Parhad Busnes ar waith felly os ydynt yn methu, gall gwasanaethau barhau i gael eu darparu.

Gall systemau Siarad Gyda'i Gilydd

Bydd hygludedd diogel data cleifion gan ddefnyddio safonau a gytunwyd yn genedlaethol a Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (API), yn cefnogi ein dull 'unwaith dros Gymru' ac yn wir yn fwy eang 'unwaith dros y claf'; h.y. o'n cleifion sy'n cael eu trosglwyddo ar gyfer gofal arbenigol, mae 96% yn cael eu derbyn dros ein ffin agosaf i Loegr ac o ganlyniad mae'n rhaid i ni weithio'n agos ar hyn gyda'n partneriaid a'n gwasanaethau yng Nghymru a thu hwnt.

Ar draws ein sefydliad mae gennym lawer o systemau y mae angen iddynt siarad â'i gilydd i sicrhau profiad da i'r claf drwy ddarparu eu gwybodaeth unwaith. Pan fyddwn yn rhoi systemau newydd ar waith byddwn yn asesu'n llawn a allant rannu gwybodaeth.

Nid yw rhai o'n systemau Gofal Cychwynnol a Gofal Eilaidd yn siarad â'i gilydd. Mae gan ddarparwyr Gofal Cychwynnol ddau brif system. Mae hwn yn fwch mawr wrth rannu gwybodaeth ac mae'n effeithio ar daith y claf pan fydd yn symud rhwng y gwasanaethau a ddarparwn i gleifion. Mae hyn yn heriol iawn, ond rydym yn dymuno gweld os yw'n bosib, ar raddfa fach i ddechrau.

Llwyfan Teleffon Cyfoethog a Nodweddion Modern

Byddwn yn cwblhau'r IP Teleffon i alluogi defnyddio swyddogaeth ehangach a datgomisiynu'r systemau etifeddiaeth.

Byddwn yn datblygu technoleg canolfannau cyswllt i'w darparu o fewn y sefydliad gan gynnwys meddygfeydd gan ddarparu opsiynau dewislen i alwadau fel dewis iaith, ciwio galwadau a chysylltu cleifion â chanolfannau a all ddelio â sawl math o ymholiad a threfnu apwyntiadau.

Byddwn hefyd yn datblygu'r defnydd o gymwysiadau ffôn symudol a rheoli dyfeisiau i gefnogi ein gweithlu symudol ymhellach.

Argaeledd Uchel Seilwaith Gweinydd

Byddwn yn dod yn fwy ymatebol i'r galw a byddwn yn gallu graddio i fyny ac i lawr ar unwaith er mwyn bodloni anghenion a gofynion newidiol ein gwasanaethau, gan gynnwys ein gofynion tymhorol. Bydd ein cwmwl preifat hefyd yn integreiddio â darparwyr Cwmwl Cyhoeddus eraill i ddatblygu Datrysiaid Cwmwl Hybrid gan ganiatáu i ni gynyddu ein capasiti technoleg a darparu gwasanaeth a ddarperir yn allanol yn ddi-dor. Mae'r dull hybrid hwn yn rhoi'r budd mwyaf i'n sefyllfa gyfredol, dyma ein dull i fod yn y cwmwl yn llwyr.

Parhad Busnes ac Adfer Trychinebau

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynllun adfer ar ôl trychineb ac yn cynnal ymarferion rheolaidd i roi'r sicrwydd bod cynlluniau ar waith ac yn barod i gael eu galw os bydd digwyddiad critigol.

Gwasanaeth Digidol sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol

Bydd ein Gwasanaeth a'n Cefnogaeth TGCh yn datblygu ymgysylltiad cwsmer ymhellach er mwyn dal gofynion gwasanaethau'n llawn fel y gallwn fodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid, tra hefyd yn gweithio tuag at gyflawni'r achrediad 'Service Desk Institute (SDI)' fel ein bod yn cyflawni'r arfer gorau yn y diwydiant.

Ar draws Gwybodeg, byddwn yn adolygu ein model cefnogi gwasanaeth cyfredol fel y gall fodloni anghenion a gorchmynion y gwasanaethau yn y ffordd orau, byddwn hefyd yn cynnwys sut y gallwn ddefnyddio technoleg cyfathrebu newydd.

Rydym yn gwybod o'n hymateb i covid ein bod angen cael technoleg sy'n hawdd ei drosglwyddo neu'n gludadwy i allu ymateb i ddigwyddiadau parhad busnes.

Uchafu'r defnydd o Systemau Cyfredol

Mae gennym nifer o systemau sydd angen eu huwchraddio ac rydym yn cynnwys y rhain yn ein gwaith busnes arferol ond pan fyddwn yn gwneud gwaith uwchraddio mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf o'r ychwanegion sy'n dod weithiau gydag uwchraddio.

Byddwn hefyd yn adolygu'r defnydd o'n systemau allweddol a darparu cefnogaeth i staff i ddefnyddio'r systemau'n well a sicrhau bod cynlluniau parhad busnes ar gyfer ein holl systemau.

Mae ein Systemau Diagnostig a Labordy yn darparu system ddigidol llawn ar gyfer ceisiadau am brofion, prosesu ac adrodd, mae hon yn system genedlaethol sy'n dod i ddiwedd ei chytundeb sydd angen cytundeb newydd gyda swyddogaethau wedi'u huwchraddio.

Diogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth Gref

Diogelwch Seibr, Gwytnwch a Chydymffurfiaeth

Byddwn yn cwrdd â'n holl ofynion statudol (Cyfarwydddeb Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (NIS-D)) a chael yr ardystiadau ymarfer gorau gan gynnwys Cyber Essentials (CE), IASME ac Ardystiad ISO 2700.

Mae profi yn bwysig i weld os yw'r hyn yr ydym wedi'i roi yn ei le yn gweithio, felly byddwn yn gwneud profion treiddgarwch allanol i ddarparu sicrwydd.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod cydbwysedd rhwng Diogelwch Seibr ac anghenion ein sefydliad i wneud ei fusnes tra'n bodloni deddfwriaeth Gwarchod Data


I Gael Y Gorau O'n Cyflenwyr

Caffael a Rheoli Cytundeb yn seiliedig ar Werth

Byddwn yn parhau i wella ein hymarferion caffael i sicrhau ein bod yn cael y systemau/gwasanaethau cywir i ddarparu'r hyn sydd ei angen arnom a'u bod yn addas ar gyfer eu pwrpas ar gyfer y defnyddiwr. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'n hagwedd Unwaith i Gymru. Byddwn hefyd yn gweithio'n well gyda'n cyflenwyr i gael mwy o werth ariannol a chymdeithasol ganddynt trwy well perthnasau a rheoli cyflenwyr.

Ar lefel genedlaethol, un o'n prif gyflenwyr yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu a bodloni anghenion bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Gan fod y Byrddau Iechyd ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd digidol, mae'n rhaid i DHCW sicrhau eu bod yn gwybod beth yw'n blaenoriaethau i gyflawni'r Strategaeth hon a gweithio gyda ni i ddatblygu cynlluniau ar y cyd i'w gyflawni ar sail flynyddol, cyn i'w cynlluniau gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i ni hefyd fonitro gweithrediad ein cynllun ar y cyd.

Cyflawni Galluogwr 2 – Gwybodaeth Er Gwella



Uned Ddadansoddeg Iechyd

Datblygu Cynllun Busnes ar gyfer yr Uned Ddadansoddeg Iechyd

Byddai Uned Ddadansoddeg Iechyd yn ein galluogi i greu capasiti pwrpasol a datblygu sgiliau ymhellach o fewn y tîm i ymgymryd â gwaith modelu a rhagweld sy'n cefnogi'r sefydliad yn rhagweithiol gyda chynllunio ar gyfer y tymor hirach.

Byddwn yn datblygu Cynllun Busnes i ddangos y gwerth ychwanegol, costau a'r buddion a ddaw o'r Uned hon.

Deallusrwydd Busnes a Roboteg

Cynyddu'r defnydd o Ddangosfyrddau Deallusrwydd Busnes (BI)

Mae nifer o'n gwasanaethau yn defnyddio dangosfyrddau deallusrwydd busnes (BI) a gall mwy o wasanaethau elwa o'u defnyddio. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddefnyddio a datblygu ymhellach ein dull rheoli cyfrifon gan weithio gyda'r gwasanaethau i wneud yn siŵr fod bylchau mewn gwybodaeth yn cael eu hymdrin â bod gwybodaeth wrth galon rheolaeth gwasanaeth a gwneud penderfyniadau.

Datblygu Model Hunanwasanaeth

Gweithio gyda'r gwasanaethau i ddatblygu Model Hunanwasanaeth i gwrdd â gofynion gwybodaeth sylfaenol. Bydd hyn yn caniatáu ein tîm o ddadansoddwyr i dreulio amser yn delio gyda cheisiadau cymhleth gan weithio'n agos gyda chwsmeriaid gwybodaeth a pherchnogion problemus i ddehongli'r symiau mawr o ddata sydd ar gael i ni.

Adolygu Pŵer BI ac Iris

Byddwn yn safoni ein templedi adrodd a datblygu ein brand i ddarparu cysondeb a sicrwydd i'n defnyddwyr gwybodaeth.

Awtomatiaeth Proses Robotig (RPA) Peilot

Adnabod ac ymgymryd â Pheilot RPA i arddangos y gwerth y gallai ddod i rai tasgau allweddol ailadroddus.

Safonau ac Awtomatiaeth Codio Clinigol

Mabwysiadu SNOMED-CT (Systemized Nomenclature of Medicine Clinical Terms)

Byddwn yn gweithio'n genedlaethol gyda DHCW i weithredu SNOMED-CT yn PBC.


Awtomatiaeth Cynyddol Codio Clinigol

Datblygu prosiect i gynyddu awtomatiaeth codio clinigol.

Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol (NDR)

Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r Tîm NDR a byddwn yn:

- Sefydlu Fframwaith Negesu Amser Real
- Sefydlu Storfa Ddata Genedlaethol (gan ddefnyddio Cwmwl a Methodolegau 'Data Mawr')
- Darparu mynediad at becynnau data modern i gefnogi dadansoddeg uwch
- Mynediad at setiau data ychwanegol (h.y. WAST, 111)



Gwella ein Haeddfedrwydd Digidol

Asesu Aeddfedrwydd Digidol

Bydd ein haeddfedrwydd digidol yn gwella trwy wybod lle'r ydym arni ar hyn o bryd a lle rydym am ei gyrraedd er mwyn sicrhau bod gennym gynllun clir ar waith. Byddwn yn canolbwyntio ar ein gallu i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau digidol, cynyddu pa mor aml y byddwn yn defnyddio dulliau digidol i gyflwyno gwasanaethau a'r seilwaith sydd gennym i ategu at ein darpariaeth gwasanaeth digidol.

Adolygu ein prosesau Llywodraethu

Bydd angen adolygu ac atgyfnerthu'r systemau a'r prosesau yr ydym yn eu defnyddio i arwain, rheoli a chyfeirio ein gwaith digidol (ein prosesau llywodraethu). Mae hyn yn cynnwys ein harbenigedd a'n harweinyddiaeth ddigidol gan sicrhau bod gennym y bobl gywir sydd â'r sgiliau cywir i gyfrannu ar draws ein sefydliad. Bydd ein prosesau llywodraethu hefyd yn cynnwys yr holl fframweithiau y mae eu hangen arnom er mwyn sicrhau bod newid yn digwydd h.y. Newid, Buddion ac ati.

Cyllid Cynaliadwy a Chynllunio

Mae ein cyllid yn gyfyngedig, mae hyn yn un o'r meysydd allweddol a nodwyd gan ein staff gan eu bod yn teimlo y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r strategaeth hon. Cyllid yw ein risg fwyaf o ran cyflawni'r Strategaeth hon, ond mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn darparu'r profiadau a'r canlyniadau gorau sy'n bwysig i bobl, gan ofalu am ein hadnoddau a'n cyllid cyfyngedig ar yr un pryd.

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n cyllideb bresennol a sicrhau ein bod yn cynnig gwerth. Byddwn yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio fel Rheoli Portffolios a fydd yn ein helpu i

flaenoriaethu'r hyn rydym yn ei wneud, cyflawni'r hyn sy'n cyfrannu at yr hyn y mae arnom ei angen i gyflawni ein blaenoriaethau strategol a byddwn yn alinio'r ffordd newydd hon o weithio gyda'n strwythurau llywodraethu presennol.

Tra bod cyllid ar gael yn y tymor byr i drawsnewid dulliau digidol, mae angen i ni fanteisio ar yr adnodd hwn gymaint â phosibl ond gan hefyd sicrhau y bydd yr hyn a wnawn yn para'n hirach na hyd y cyllid gan fod datrysiadau byrdymor yn gallu cael effaith negyddol ar brofiadau cleifion a staff.

Gan fod ein cyllid yn gyfyngedig a'i fod ar gael yn y tymor byr yn unig weithiau, byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd ychwanegol am gyllid cynaliadwy, bydd meddu ar y Strategaeth hon a bod yn ymwybodol o'n blaenoriaethau'n ei gwneud yn haws i ni achub ar gyfleoedd o'r fath.

Mae angen atgyfnerthu ein hachosion busnes ar gyfer prosiectau ar draws y sefydliad fel bod yr holl gostau digidol yn cael eu canfod yn llawn, yn ogystal ag ystyried costau gydol oes y systemau a'r offer y byddwn yn eu rhoi ar waith. Unwaith eto, i wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau.

Mae angen i gynllunio dulliau digidol ar lefel gwasanaeth yn y dyfodol wella gan ei fod yn caniatáu i ni gynllunio ein hadnoddau a'n cyllid yn well ac i ni allu cyflwyno'r prosiectau neu'r gwaith cywir sy'n cyflawni ein blaenoriaethau strategol, yn cynnig gwerth a buddion.

Ail-frandio Gwybodeg

Er mwyn moderneiddio ein ffordd o feddwl, byddwn yn ail-frandio'r Adran Gwybodeg fel na chaiff y gwasanaeth ei weld fel darparwr gliniaduron a ffonau'n unig, ond ei fod yno i helpu gyda'r agenda digidol ehangach ac i roi cymorth o ran trawsnewid.

Mabwysiadu'r Safonau Gwasanaeth Digidol

Un rhan o ddod yn Sefydliad Digidol yw bod rhaid i ni gadw'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud a byddwn yn gwneud hynny trwy fabwysiadu Safonau Gwasanaethau Digidol i Gymru fel sefydliad a'n hintegreiddio i'n prosiectau digidol, mae hyn hefyd yn ategu ein hymagwedd tuag at Gynhwysiant Digidol.

Gwella Darpariaeth a Gwella Gwerth

Portffolio, Rhaglen a Fframweithiau Rheoli Prosiect

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno'r rhaglenni a'r prosiectau cywir a gwerth, byddwn yn rhoi Fframwaith Rheoli Portffolio ar waith, bydd hyn yn ein helpu i flaenoriaethu'r hyn y mae angen i ni ei wneud.

Mae cyflwyno systemau a ffyrdd newydd o weithio ar garlam yn dibynnu arnom ni i gael y lefel gywir o staff sydd â'r sgiliau cywir ond hefyd i weithredu ffyrdd newydd o weithio, torri i lawr yr hyn y mae angen i ni ei gyflwyno'n dasgau byrrach, asesiadau mwy cyson gyda defnyddwyr a newid ein cynlluniau, yn ôl yr angen. Byddwn yn rhoi ymagwedd fwy ystwyth ar waith o ran sut rydym yn rheoli ein prosiectau a'n rhaglenni lle bo'n briodol a byddwn yn ei hymgorffori i adolygiad o'n Fframwaith Rheoli Prosiect ac i'r gwaith o ddatblygu ein Fframwaith Rheoli Rhaglen.85932.8/25/

Fframwaith Gwireddu Buddion

Ni fydd meddu ar gynlluniau da yn arwain at y newid hwnnw, mae'n rhaid i'r gwaith a wnawn wneud gwahaniaeth a chynnig gwerth ac mae'n rhaid i ni allu dangos hyn. Caiff buddion eu pennu wrth ddechrau ar yr hyn y byddwn yn ei wneud a byddwn yn monitro'r broses gyflwyno. Bydd yn rhaid i'r

gwasanaethau gymryd perchnogaeth dros y buddion a bydd ein Harweinwyr Clinigol yn cyflawni rôl bwysig o ran ymgorffori'r ffordd hon o weithio.

Bydd ein ffocws ar fuddion yn ymwneud â'r claf h.y. diogelwch, canlyniadau a phrofiad, ein staff yn ogystal ag ariannol, heb fod yn ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae angen i ni atgyfnerthu ein gwybodaeth a'n profiad mewn perthynas â systemau a'r effaith ar y meysydd hyn; yn enwedig diogelwch cleifion, mae hwn yn faes ymchwil allweddol i ni.

Ymagwedd tuag at Reoli Newid

Bydd y Strategaeth hon yn trawsnewid sut rydym yn darparu gwasanaethau, sut rydym yn gweithio o ddydd i ddydd a bydd yn effeithio ar ein cleifion a'n gofalwyr. Bydd ymgorffori'r newidiadau hyn er mwyn gwireddu'r buddion yn heriol felly byddwn yn mabwysiadu/datblygu ymagweddau priodol tuag at reoli newid.

Cynllunio Ar Gyfer Ein Gweithlu Cyfredol A'r Dyfodol

Ymglymiad Staff

Mae cynyddu ymglymiad ein staff clinigol ac anghlinigol i arwain a bod yn gysylltiedig â'n prosiectau digidol yn hanfodol gan eu bod yn gwybod beth maen nhw ei angen o systemau ac unrhyw ffyrdd newydd o weithio, mae hyn yn rhan o'n hagwedd Dyluniad Defnyddiwr.

Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Glinigol Ddigidol angen cael ei gryfhau i gynnwys Arweinydd Clinigol Nyrsio, i sicrhau fod y proffesiwn nyrsio yn cael ei gynrychioli'n llawn ac yn siapio ein Dyfodol Digidol.

Bydd pob aelod staff clinigol sy'n cymryd y rolau hyn yn cael cefnogaeth briodol a pharhaus i barhau i ddatblygu yn eu rolau, bydd y gefnogaeth hon yn cael ei harwain yn glinigol gan ein Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol. Un o'r prif rolau sydd wedi cael ei adnabod drwy'r strategaeth hon yw'r hyrwyddwyr er mwyn gwireddu buddion clinigol.

Bydd y strategaeth hon yn effeithio ein holl staff, mae ymglymiad staff ehangach yn y newid hwn wedi'i gynnwys yn yr adran Profiadau Staff.

Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer Gwybodeg

I allu cyflawni'r strategaeth hon, mae angen i ni gael y gweithlu digidol cywir nawr a chynllunio ar gyfer pa weithlu y byddwn ei angen dros y 5+ mlynedd nesaf, gan gynnwys ein harweinyddiaeth a'n rheolaeth. Rydym eisoes yn gwybod bod angen cynyddol am staff gyda sgiliau seibr ddiogelwch ac rydym hefyd yn disgwyl i'r maes allweddol hwn fod yn hyd yn oed mwy cymhleth a drud.

Mae hyfforddiant yn rhan allweddol o gynllunio ar gyfer anghenion sgiliau yn y dyfodol, ymhen 5 mlynedd byddwn yn disgwyl i'n hanghenion o ran sgiliau fod yn wahanol iawn i heddiw oherwydd cyflymder newid technolegol.

Mae datblygu ein Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu yn faes allweddol a fydd angen i ni gydweithio arno gyda'n Colegau Lleol, Prifysgolion a Chyrff Cenedlaethol megis Gwella Addysg Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

Ymgysylltiad Parhaus Gyda'r Cyhoedd, Cleifion, Gofalwyr a Staff

Ymgysylltiad wedi'i gynllunio gyda'r Cyhoedd, Cleifion a Gofalwyr

Roedd yr ymateb i'n Harolwg Cyhoedd/Cleifion yn wych, ac mae'r strategaeth hon wedi'i siapio yn seiliedig ar yr adborth a'r sylwadau a dderbyniwyd.

Mae adeiladu ar yr ymgysylltiad hwn yn bwysig i weld a yw'r strategaeth hon yn gwneud gwahaniaeth a byddwn yn gweithio trwy ein rhwydweithiau cyfredol a hefyd yn datblygu Grŵp Cleifion Digidol anffurfiol a fydd yn gysylltiedig â phrofi datrysiadau digidol a darparu barn ar agweddau i ddatrysiadau digidol.


Bydd angen i ni hefyd barhau i ymgysylltu i asesu a ydym wedi gwella o safbwynt y Cyhoedd/Cleifion gan fod yr ymgysylltiad wedi darparu gwaelodlin yn erbyn yr hyn y gallwn asesu cyflawniad y Strategaeth hon.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda Staff

Mae Ymgysylltiad Parhaus Staff yn bwysig hefyd, eto fel y gallwn weld a yw'r strategaeth hon yn gwneud gwahaniaeth.

Mae ein holl staff angen gwybod am y strategaeth a'u rôl i gefnogi ei gyflawniad, felly byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac yn parhau i ymgysylltu.

Cyflawni Galluogwr 4 – Partneriaethau Cryf



Rhannu Gwybodaeth

Byddwn yn cydweithio gyda'n Partneriaid i ddatblygu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth fel y gallwn gadw gwybodaeth yn ddiogel a gwneud yn siŵr fod gwybodaeth yn cael ei rannu'n gyfreithlon yn unol â Deddfwriaeth Gwarchod Data.

- Cyflawni beth sydd ei angen gyda'n gilydd**

Byddwn yn hyfforddi ein staff digidol i weithio'n fwy cyd-gynhyrchiol ac Integreiddio Dyluniad wedi'i Ganoli ar y Defnyddiwr i mewn i'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Byddwn yn gweithio'n cyd-gynhyrchiol gyda'n tîm adnoddau cymunedol ac iechyd meddwl i ddatblygu cynlluniau gwasanaeth digidol.


Ein partner mewnol allweddol yw'n Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, y byddwn yn parhau i weithio'n agos â hwy i sicrhau ein bod yn bodloni deddfwriaeth Gwarchod Data a sicrhau preifatrwydd wrth ei ddylunio.

- **Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar y Cyd**

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i asesu a fyddent yn blaenoriaethu datblygiad Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar y Cyd.

Byddwn yn darparu arweinydd partner o'r Gwasanaeth Gwybodeg i barhau i weithio gyda phartneriaid ar gyfleoedd digidol sy'n elwa ein cleifion a'n staff.

Cyflawni Galluogwr 5 – Cynhwysiant Digidol



Cydweithio

Menter Cymunedau Digidol

Rydym yn rhan o'r Fenter Cymunedau Digidol a byddwn yn parhau i fod yn rhan o'r grŵp hwn. Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant digidol i Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r rhai mwyaf bregus i gael eu cynnwys yn ddigidol; cefnogi dinasyddion i ymgysylltu gydag ymgynghoriadau rhithwir a chefnogi pobl gyda chyflyrau cronig newydd neu gyfredol i ddefnyddio technoleg ddigidol.*

Fel yr ydym wedi nodi, rydym am asesu a yw'n Partneriaid Awdurdodau Lleol eisiau cael Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar y Cyd. Oherwydd effaith sylweddol eithriad digidol ar bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, rydym eisiau symud ein gwaith ymlaen gyda'n partneriaid i ddatblygu strategaeth ddigidol ar gyfer gofal a chefnogaeth wedi'i bersonoli, a fydd yn ffurfio rhan o Strategaeth Ddigidol ar y Cyd cynhwysfawr.

*Noder: Mae'n bosibl na fydd hyn ar draws y Bwrdd Iechyd gan fod rhaid i Awdurdodau Lleol optio i mewn i fod yn gysylltiedig.

Gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru (a/neu Raglenni eraill Llywodraeth Cymru sy'n anelu at leihau eithrio digidol)

Cymunedau Digidol Cymru: Mae Hyder Digidol, Iechyd a Lles yn rhaglen tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ostwng eithrio digidol a helpu i wella lefelau sgiliau digidol sylfaenol ar draws Cymru.

Mae Cymunedau Digidol Cymru yn un o'n partneriaid allweddol i wella cynhwysiad digidol ein cleifion a'n staff. Rydym eisiau parhau i weithio gyda nhw ac ymgysylltu â hwy yn gynnar pan fydd gennym newidiadau gwasanaeth staff neu ar gyfer gleifion. Y nhw yw'r arbenigwyr i ddatblygu gwirfoddolwyr a hyrwyddwyr digidol a gallent ein cynghori ar yr arfer gorau. Maen nhw hefyd yn bartner allweddol mewn perthynas â'n cynlluniau i gefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau digidol. (Gweler Uchelgais 2: Staff wedi'u Cysylltu).

Mewnosod Cynhwysiant Digidol


Arwyddo ar gyfer y Siarter Cynhwysiant Digidol

Er mwyn i'n Strategaeth fod yn llwyddiannus, mae Cynhwysiant Digidol yn hanfodol felly byddwn yn arwyddo ar gyfer y [Siarter Cynhwysiant Digidol](#) a'i fewnosod yn ein ffyrdd o weithio.

Asesiadau Effaith Cynhwysiant Digidol

Gallai'r effaith y byddwn yn ei gael ar ein defnyddwyr fod yn arwyddocaol, byddwn yn asesu'n llawn effaith y gwasanaethau digidol y byddwn yn eu gweithredu ac yn ymgymryd ag Asesiad Cynhwysiant Digidol (DIIA) gan ddefnyddio'r rhestr wirio ddigidol genedlaethol ac ymgorffori ein Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Cyflawni Galluogwr 6 – Croesawu Arloesedd



Modelau Newydd o Gofal

Rôl Ddigidol o fewn Modelau Gofal Newydd

Mae angen i ni ymchwilio i fodolau gofal newydd i weld pa rai fydd yn gweithio i ni, bydd y rhan fwyaf o'r modelau gofal newydd hyn angen eu galluogi'n ddigidol, a bydd y rhain yn cael eu dynodi drwy ein Strategaeth Glinigol.

Bydd y dyfodol yn wahanol iawn fel y mae technoleg ddigidol a ni fel sefydliad yn datblygu yn y maes hwn, mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio fwy ar gael y sylfeini'n iawn ond mae angen i ni fod gam ymlaen ac edrych ar ein gweledigaeth yn y tymor hirach sy'n fwy rhithwir, yn fwy awtomatig gyda chynnydd yn y defnydd o robotiaid.

Rydym wedi dechrau monitro cleifion mewn amser real gan ddefnyddio dyfeisiau gwisgo yn ystod covid. Mae Ward Alaw wedi gallu monitro rhai cleifion cancer sydd ar gemotherapi gartref gan ddefnyddio oriawr glyfar gyda'r data amser real yn cael ei fonitro gan y clinigwyr sy'n darparu eu gofal a all bigo i fyny ar unrhyw arwyddion rhybudd cynnar. Rydym eisiau cynyddu ein defnydd o'r dechnoleg hon gan ei fod yn darparu nifer o gyfleoedd i ddarparu hunanofal a gofal ataliol yn hytrach na gofal adweithiol.

A yw wardiau rhithwir yn opsiwn i ni yn y dyfodol? Gyda'r gallu i fonitro o bell, gallai gefnogi pobl sy'n gallu ac sydd eisiau bod gartref.

Mae ein Meddygfeydd Meddygon Teulu wedi addasu'n dda i agwedd mwy rhithwir trwy gydol covid, gyda rhai yn defnyddio e-Consult sydd wedi lleddfu rhywfaint o broblemau mynediad at gyfer rhai cleifion. All ein meddygfeydd MT fod yn fwy digidol a gweithio gyda'i gilydd mewn clystyrau fel bod gan gleifion fynediad at ystod ehangach o feddygfeydd?

Gweithio Gyda'n Gilydd a'r Arfer Orau

Gweithio gydag Addysg Uwch (HE) ac Addysg Bellach (FE) yn Genedlaethol ac yn Lleol

Mae arloesedd mewn Digidol yn digwydd, ar draws yr holl sefydliadau HE a FE ar draws Cymru. Rydym eisiau adeiladu perthnasau cryfach gyda Phrifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer arloesedd a chynllunio'r gweithlu. Ar lefel genedlaethol, rydym eisiau dysgu gan Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI) a'u dull o ddatblygu myfyrwyr i fod yn weithlu'r dyfodol. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i weithio ar lefel genedlaethol a dysgu o'r arfer gorau.

Gweithio gydag Ymchwil a Datblygiad PBC

Mae gennym ein Tîm Ymchwil a Datblygiad ein hunain sy'n arwain y ffordd o ran arloesedd ac rydym eisiau dod â Digidol ac Ymchwil yn agosach at ei gilydd.

Gweithio gyda'r Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant Rhanbarthol (RRIICH)

Nod yr hwb yw cydlynu gweithgareddau ymchwil, arloesedd a gwelliant yng Ngogledd Cymru ynghylch sut y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n well gyda'i gilydd. Mae'n bwysig iawn i ni gysylltu mwy gyda gwaith yr hwb ymchwil a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes sydd wedi cael ei ddatblygu'n barod ar lefel rhanbarthol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar "Ddarganfod Gwybodaeth Iechyd o Ansawdd Ar-lein" sy'n bwysig ar gyfer cyflawni'r Strategaeth hon.

Dysgu o'r Arfer Gorau

Mae gennym lawer o arfer da o fewn PBC, o'n Partneriaid a sefydliadau lechyd a heb fod yn lechyd eraill.

Bydd adolygu hyn yn rhan o'n hagwedd.

Mae yna nifer o enghreifftiau o arfer da; mae ein Hadran Awdioleg wedi bod yn defnyddio system reoli cleifion ac felly wedi bod yn defnyddio system ddi-bapur ers dros 20 mlynedd. Gellir gweld astudiaeth achos o hyn yn Atodiad 7.

Mae Partneriaethau cryf yn hanfodol ar gyfer ein dyfodol, mae ein Tîm Gwasanaethau Canser yn gweitho gyda Macmillan ac maen nhw newydd gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser Gyda'n Gilydd, ac mae gan gleifion fynediad at yr Asesiad Anghenion Holistig (EHNA) sy'n cefnogi gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Gellir gweld mwy o fanylion yn Atodiad 8 – Astudiaeth Achos Macmillan.

Menter Ymchwil Busnes Bach (SBRI)

Parhau i arwain ar y SBRI

Mae'r gwaith rydym ni wedi'i wneud yn arwain y SBRI yn genedlaethol wedi ennill gwobrau ac mae'n gyrru arloesedd ymhellach ac rydym yn awyddus i barhau gyda hyn. Mae hyn yn cael ei ariannu trwy Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn flynyddol, gyda golwg ar ei wneud yn barhaol.

Arwain at SBRI Cenedlaethol DU

Mae cymaint o gyfleoedd ar gyfer arloesedd ac un o'r rhain yw gweithio ar lefel y DU gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu her ac ymateb cenedlaethol.

10. MAP FFORDD AR GYFER CYFLAWNI A MEASUR LLWYDDIANT

Noder Y dyddiadau ar gyfer y Prosiectau yr ydym wedi Diogelu Cyllid ar eu cyfer yw'r dyddiadau cyflawni, nid y dyddiadau dechrau. Ar gyfer y Prosiectau sy'n ddibynol ar y Cynlluniau Busnes, dyma'r dyddiadau y bydd y Cynlluniau Busnes yn cael eu cynhyrchu.

Galluogi Cleifion a Gofalwyr			Staff Wedi eu Cysylltu						
	Cyllid wedi’l Ddiogelu/ Ddim ei angen			Yn Ddibynnol ar Gynllun Busnes			Yn ddibynnol ar Gyllid Cenedlaethol		
2021 / 22	Llythyrau Apwyntiad Digidol a Nodiadau Atgoffa trwy Neges Destun	Arddywediad Digidol a Chydnabod Lleferydd	Rheoli Canlyniadau	Ymgynghoriadau Rhithwir	System Profiad Cleifion	Deilliannau a Adroddwyd gan Gleifion	Porth Cleifion (DSPP)	Prosiect Gofal Dwys Digidol	Ward Digidol
	Symphony / WEDS	Dyluniad Systemau		Cofod Gofal Nyrsio Cymru WNCR	System Rannu Gwybodaeth Gymunedol	Fferylliaeth - MTeD	Rheoli Meddyginiaethau ac e-ragnodi		
				Gweithrediad Rhaglen Gofal Llygaid	WPRS (e-gyfeiriadau gofal eilaidd)	System Gwybodaeth Gwasnaethau Mamolaeth			
				Gweithrediad Rhewmatoleg	Gweithrediad System Awdioleg	Arwyddo i mewn unwaith			
2022 / 23	Office 365 (ar y cyd)	Office 365 (cynhyrchiant)		Deallusrwydd Artificial ar gyfer Dilysu	WPAS (Gorllewin l’r Canol)	Amnewid Therapy Manager			
2023 / 24	Cofnod Iechyd Digidol Llym			WPAS (Digwyddiad Sengl)					
2024 / 25				E-Gyfeiriadau	Apwyntiadau Arlein		Symphony / WEDS	Cynllun Sgiliau	

Mesur Llwyddiant

Bydd llwyddiant y Strategaeth hon yn cael ei mesur yn y ffyrdd canlynol:

- **Gwell Profiadau** – profiadau cleifion, gofalwyr a staff
- **Gwell Buddion** - y buddion y mae'r strategaeth hon yn eu rhoi i gleifion, gofalwyr, staff a'r sefydliad, bydd hyn yn cynnwys buddion ariannol a heb fod yn ariannol a lle'n briodol yr enillion o'r buddsoddiad digidol.
- **Gwell cydymffurfiaeth gyda Deddfwriaeth** – Sicrhau ein bod yn bodloni'r ddeddfwriaeth ofynnol
- **Blaenoriaethu Buddsoddiad** – Buddsoddiad cynaliadwy wedi'i flaenoriaethu mewn digidol
- **Aeddfedrwydd Digidol Cynyddol** – Cwrdd â cerrig milltir aeddfedrwydd cytûn
- **Gweithlu Cywir i'w gyflawni** – cael y gweithlu cywir gyda'r sgiliau cywir i'w gyflawni
- **Amser i Gyflawni** – Amser o gymeradwyo'r cynllun busnes i weithredu'r systemau (Wedi'i gynllunio yn erbyn gwirioneddol).

11. MONITRO AC ADOLYGU'R STRATEGAETH

Bydd diweddariad blynyddol ar gynnydd y strategaeth hon yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth Digidol (DIGC) a'i adrodd i'r Bwrdd Iechyd.

Mae hon yn strategaeth 3 blynedd a bydd yn cael ei hadolygu ymhen 3 blynedd ond oherwydd cyflymder y newid, bydd angen diweddariad blynyddol.

12. ATODIADAU

ATODIAD	TEITL	DOGFEN
Atodiad 1	Crynodeb o Ymgysylltiad y Strategaeth Ddigidol (dolen i'r adroddiad ymgysylltiad llawn unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi)	 Atodiad 1- Crynodeb o Ymgysyl
Atodiad 2	Cynlluniau Cyflawni	 Atodiad 2 – Cynlluniau Cyflawni
Atodiad 3	Rhestr Lawn o Strategaethau Cenedlaethol, Cynlluniau a Rhaglenni a Dolenni Allweddol eraill	 Atodiad 3 Rhestr Lawn o Strategaeth:
Atodiad 4	Ble rydym ni nawr – Uchelgeisiau, Galluogwyr a Systemau Cyfredol	 Atodiad 4 Ble rydym ni nawr .pdf
Atodiad 5	Trosolwg o'n Isadeiledd TG	 Atodiad 5 Trosolwg o'n Isadeil
Atodiad 6	Ein Hymateb i Covid	 Atodiad 6 CYM.pdf
Atodiad 7	Arfer Dda – Awdioleg	 Atodiad 7 Arfer Dda – Awdioleg .pd
Atodiad 8	Arfer Dda – Macmillan	 Atodiad 8 Arfer Dda – Macmillan.pd
Atodiad 9	Geirfa	 Atodiad 9 - Geirfa.pdf